www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 526
Awst | Medi
2024

# Hwyl a SBRI yr Haf!

Roedd yr haf yn hwyr iawn yn ein cyrraedd eleni, ond fe lwyddodd disgyblion gwych Ysgol Brynrefail i swyno'r haul i Gymru o'r diwedd gydag egni a hwyl eu sioe gerdd SBRI.

Am sioe arbennig oedd hi gyda'r bobol ifanc yn morio eu caneuon pop Cymraeg! Roedd hi'n hyfryd gweld y plant i gyd wrth eu boddau ac yn cael profiad mor werthfawr – diolch o galon i gast talentog SBRI am sioe i'w chofio! Diolch hefyd i staff Ysgol Brynrefail a chriw Raga Rug am hyfforddi a chefnogi'r plant; roedd gweld yr athrawon yn dawnsio, canu ac ymuno yn yr hwyl yn ein hatgoffa o griw mor wych ydyn nhw!

Haf hapus a llawn hwyl a sbri i bawb yn Nyffryn Peris – welwn ni chi yn yr hydref!







## Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.



## Yn y rhifyn hwn:


- Bob a'i gadair newydd – tud 6
- Prom – tud 15
- Ar ben arall i'r lein – tud 21
- Rhys a'r Gemau Olympaidd – tud 31


31



6



ECO'r Wyddfa


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk


# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Diogelu Dyfodol Meddygfa Llanberis

Mae Meddygfa Llanberis eisiau hysbysu newidiadau i wasanaethau darparu meddyginiaeth i gleifion. Y bwriad yw gwella'r gwasanaeth i gleifion trwy gynyddu'r oriau fydd ein *dispensary* meddyginaeth ar agor ac ehangu y mathau gwahanol o feddyginiaeth y gallwn archebu a *dispensio* i glefion. Mi fydd oriau agor newydd y feddygfa yn Llanberis o **8.30am – 12.30pm a 1.00pm – 6.00pm** hefyd yn cefnogi y gwasanaeth yn Neiniolen a Llanrug. Gobeithiwn y bydd y newidiadau yma yn annog ein cleifion i gefnogi ein busnes *dispensio* meddyginiaeth dros y tri safle yn Llanberis, Deiniolen a Llanrug er mwyn sicrhau a chefnogi dyfodol gwasanaethau meddygol yn y tymor hir yn ein cymunedau.

Mi fydd oriau agor canghennau Deiniolen a Llanrug yn parhau fel arfer.

Rydym wedi gwneud trefniadau gyda'n cyflenwyr meddyginiaeth i ddarparu cyflenwadau ddwy waith y dydd i sicrhau bod stoc yn cael ei gynnal y ein *dispensaries*.

Penodwyd arweinydd newydd yn ein fferyllfa yn ddiweddar sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener i'ch cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch meddyginiaeth.

## Rhoddion *Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£10 – Er cof am John Griffith, Fachell, Llanddeiniolen. Jane a Neville Thorman-Jones

£20 – Mrs Hefina Jones, 8 Rhosrug

£30 – gan Dennis a Mair Davies, 33, Tal y Cae, Tregarth. Er cof annwyl am Dilys Wyn Morris, Foelas, Deiniolen a Richard Wyn a Gwyneth Evans, Tŷ'n Buarth, Brynrefail

£50 – Er cof am Hilda Wynn Orritt, Moranedd, Cwm y Glo.

## Annwyl Ddarllenwyr

Dwi'n paratoi llyfr o'r enw *Covid Cymru* a fydd yn bwrw golwg dros flynyddoedd 2020-2024 yma yng Nghymru, a thrafod y profiadau a ddaeth i ran pawb ohonom yn ystod y cyfnod hwn.

Dyma'r digwyddiad mwyaf yn hanes y rhan fwyaf ohonom, ac mae'r amser wedi dod i geisio cofnodi'r hanes hwn trwy berspectif Cymreig.

Y syniad sydd gen i ydi ysgrifennu am holl gyfnod y Covid trwy lygaid pobol gyffredin ym mhob rhan o Gymru. Profiadau pobol a theimladau pobol am yr hyn a ddigwyddodd yn eu bywydau yn ystod y cyfnod rhyfedd a dryslyd hwn.

Byddaf yn cyflwyno braslun o'r prif ddigwyddiadau eu hunain yn ystod y cyfnod dan sylw, ond dwi am roi'r pwyslais pennaf ar brofiadau ac argraffiadau pobol o'r cwbwl.

Dwi eisoes wedi cychwyn ar y broses o gyfweld pobol ar gyfer y llyfr, ond dwi'n awyddus i daflu'r rhwyd ymhellach erbyn hyn.

Gan hyderu y bydd mwy o unigolion yn fodlon rhannu gair o brofiad hefo fi fel rhan o'r broses ymchwil ar gyfer y llyfr.

Dwi'n gobeithio cynnal y cyfweliadau wyneb yn wyneb ble bo hynny'n bosib, ond bydd sgyrsiau dros y ffôn hefyd yn bosib.

Saesneg fydd iaith y llyfr ei hun, ond wrth gwrs bydd modd cynnal pob cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch gysylltu gyda mi ar: aled13102@gmail.com neu trwy ffonio 07818 068 205

Yr eiddoch yn gywir

Aled Gwyn Job
Tryfan
31 Ponc Y Fron
Llangefni
Ynys Mon.



## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Hydref | 13 Medi | 27 Medi |
| Tachwedd | 11 Hydref | 25 Hydref |
| Rhagfyr | 8 Tachwedd | 22 Tachwedd |



## Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Nofio**: Daeth dros 3,000 o nofwyr noeth i afon Derwent yn Tasmania i ddathlu heuldro'r gaeaf – diwedd y nos hwyaf o'r flwyddyn yn Hemisffer y De. Roedd tymheredd y dŵr tua 12 gradd C.
- **Yoga:** Yn India ar heuldro'r haf daeth miloedd i ddinas Kolkati i ddathlu Diwrnod Yoga. Y thema eleni oedd 'Yr hunan a chymdeithas'.
- **Tenis:** Record byd newydd gan Milos Raonic o Ganada tra'n chwarae yng Nghlwb Queen's, Llundain. Mewn gêm dair set llwyddodd i sgorio 47 'ace', dwy yn fwy na'r hen record oedd yn sefyll ers 2015.
- **Crefydd**: Mae talaith Louisiana yn yr UDA wedi deddfu ei bod yn orfodol i bob ysgol – cynradd neu uwchradd – roi poster ar wal pob ystafell ddosbarth yn cynnwys y Deg Gorchymyn. Bydd y ddeddf yn weithredol o fis Ionawr 2025. Does dim deddfwriaeth yn dweud fod angen cadw'r gorchmynion.
- **Pêl-droed**: Cristiano Ronaldo o Bortiwgal yw'r peldroediwr cyntaf erioed i gynrychioli ei wlad mewn chwech Pencampwriaeth Ewropeaidd yn olynol.
- **Mwd**: Mae dinas Ayetoro yn Nigeria mewn perygl o ddiflannu i'r môr. Fe'i sefydlwyd gan Gristnogion a'i galw'n Ddinas Hapus, ond does dim hapusrwydd yno bellach, a rhai miloedd o'r boblogaeth eisoes wedi ffoi. Fe'i sefydlwyd ar afon Malin, a dim ond mwd sy'n gwarchod y ddinas o'r môr sy'n llai na 30 metr i ffwrdd bellach, ac yn erydu'r mwd ar raddfa gyflym iawn. Arferai'r môr fod 10 cilomedr i ffwrdd.
- **Morgais???** Nid yw'n broblem i gyfoethogion Dubai mae'n amlwg. Yn ystod 5 mis cyntaf eleni gwerthwyd bron i fil o'r hyn a elwir yn 'eiddo moethus' am dros £3 miliwn yr un.
- **Treth ar gyfoeth:** Mae'n sicr mai'r cyfoethogion sy'n poeni fwyaf am gyflwyno treth o'r fath – ond cysidrwch hyn: Pe bai'r ugain person cyfoethocaf yn y byd yn gwario miliwn o bunnau bob dydd – ia, bob dydd, yna byddai'n cymryd 50 o flynyddoedd iddynt wario eu holl gyfoeth!
- **Matariki:** Mae mwy a mwy o bobloedd frodorol Aoteara (Seland Newydd) yn dathlu'r ŵyl hon yn hytrach na'r Nadolig, ac y mae bellach yn un o wyliau cyhoeddus y wlad. Mae'n dathlu lleuad newydd cyntaf y flwyddyn. Ond mae llawer yn gwrthwynebu; y mwyafrif helaeth ohonynt yn ddisgynyddion i'r mewnfudwyr cyntaf o Brydain.
- **Blaidd**: Yn Yakutia, ardal yng ngogledd Arctig Rwsia mae gwyddonwyr wedi dechrau ar y dasg o astudio corff blaidd sydd wedi ei rewi ers dros 40,000 o flynydddoedd. Fel arfer, anifeiliaid oedd yn pori oedd fwyaf tebygol o gael eu cadw dan rew, a dyma'r enghraifft cyntaf o anifail oedd yn hela am fwyd yn cael ei ddarganfod.
- **James Bond**: Mae argraffiad cyntaf o nofel Ian Fleming – *Casino Royale*, a brynwyd am bunt mewn sêl cist car, wedi gwerthu mewn ocsiwn am £10,000.
- **Cerrig:** Mae'r samplau cerrig cyntaf erioed o ran o'r lleuad na fu archwilio yno wedi eu dychwelyd i'r ddaear gan 'Chang'e-6', lloeren archwilio o China.
- **Crocodeil:** Mae arweinydd llywodraeth ranbarthol y Northern Territory, Awstralia wedi datgan fod angen rheoli niferoedd y crocodeilod yno; hynny wedi i eneth ddeuddeg oed gael ei chipio a'i lladd gan grocodeil. Ers 1970 mae'r crocodeil wedi ei warchod drwy gyfraith gwlad, a hynny am mai llai na 3,000 ohonynt oedd yn bodoli yno bryd hynny. Amcanyfrifir fod dros 100,000 o grocodeilod yno erbyn heddiw.
- **Mudwyr**: Mae mudwyr anghyfreithlon wedi cael llawer o sylw led-led Ewrop dros y blynyddoedd diwethaf, boed hwy'n ffoaduriaid neu'n bobl yn chwilio am well bywyd. Aeth croesi mewn cychod hynod o fregus yn gyffredin ar draws Môr y Canoldir a hefyd o Ffrainc i dde Lloegr. Ond yn ôl arolwg gan y Cenhedloedd Unedig mae'r llwybrau peryclaf, nid ar y môr, ond ar y tir, sef y rhai hynny sy'n croesi diffeithdir y Sahara.
- **Cŵn**: Yn ôl y Post Brenhinol mae ymosodiadau gan gŵn ar bostmyn wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar gyfartaledd mae 42 ymosodiad bob wythnos o'r flwyddyn. Roedd 88 o'r ymosodiadau wedi bod mor ddrwg fel na allai'r postmyn rheini barhau â'u gwaith.
- **Gwyddbwyll:** Mae merch naw oed o Lundain wedi ei dewis i gynrychioli tîm gwyddbwyll Lloegr yn yr Olympiad Gwyddbwyll sydd i'w gynnal yn Hwngari fis Medi – yr ieuengaf erioed yn hanes y gêm.
- **Lecsiwn**: Mae Cymru fach daeog yn dathlu am nad oes yr un aelod seneddol Ceidwadol yng Nghymru bellach. Y gwir amdani yw mai gan y Ceidwadwyr roedd yr ail bleidlais fwyaf drwy'r wlad. A faint gwell fyddwn ni o gael y Blaid Lafur yn rheoli o Lundain? Nid yr hen blaid sosialaidd draddodiadol mo hon bellach chwaith. Cysidrwch ddewis Starmer i sefyll yn erbyn ei gyn 'ffrind', Corbyn – miliwnydd ifanc yn berchen ar gwmni gofal iechyd preifat.

## Dechrau Pennod Newydd yn Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri

Wedi cyfnod o bron i chwe mlynedd heb offeiriad plwyf llawn amser cafodd y Parch Ganon Naomi Starkey ei phenodi'n Ficer ac Arweinydd Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri, sef ardaloedd Llanberis, Nant Peris, Llanrug, Cwm-y-Glo, Llanddeiniolen, Bethel, Penisarwaen, Deiniolen a Dinorwig. Cyn symud i Fro Eryri roedd Naomi yn Arweinydd Ardal Gweinidogaeth Bro Padrig, yng ngogledd orllewin Ynys Môn, o Fae Cemaes i Lanfaethlu.



Bu'r gwasanaeth i groesawu ac i ddathlu gweinidogaeth newydd Naomi yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar y diwrnod a adnbyddir fel penblwydd yr Eglwys, sef y Pentecost neu'r Sulgwyn. Llywyddwyd yn y gwasanaeth gan y Parchedicaf Andrew John, Esgob Bangor ac Archesgob Cymru, a'r Gwir Barchedig David Morris, Esgob Enlli.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar iawn i gael Naomi yn ein harwain ac yn gwasanaethu yn ein plith.

Yna, ar ddydd Sadwrn 15fed Mehefin cafodd Jill Ireland ei thrwyddedu fel Caplan Awyr Agored Bro Eryri. Esgobaeth Bangor, mewn partneriaeth â Gweinidogaethau Gwledig sydd wedi penodi Jill a'i chenhadaeth fydd pontio'r bwlch rhwng ffydd â'r awyr agored, meithrin cysylltiadau â'r gymuned leol ac o fewn y gymuned awyr agored.



Fe ddathlwyd gyda gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr awyr agored yn Tŷ'n Ffynnon, Nant Peris, wedi'i amgylchynu gan y mynyddoedd ac wrth ffynnon sanctaidd Sant Peris. Defnyddiwyd dŵr o'r ffynnon i'w bendithio gan y Parchedicaf Andrew John, Esgob Bangor ac Archesgob Cymru.

Rydym yn estyn croeso cynnes iawn i Jill i'n plith ym Mro Eryri ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn troedio'r fro.

Bydd y ddwy yn ymgartrefu yn Llanberis, Naomi yn y Rheithordy a Jill yn Nhŷ Sant Padarn.

# BETHEL A SEION

**Mish-Mash**
Ar ran y pentrefwyr a'r fro, llawer o ddiolch i'r pwyllgor gweithgar am lunio a llywio wythnos lwyddiannus o weithgareddau eto eleni. Yn amlwg, maent wedi gallu darganfod cymysgedd o weithgareddau sy'n apelio at ddant y gwahanol oedrannau. Adlewyrchir hyn gan y gefnogaeth i'r gwahanol atyniadau.

Cafwyd dechrau campus i'r wythnos gyda'r gêm bêl-droed. Diolch i'r gwahanol sêr am eu cefnogaeth. Drwy lens camera Heno roedd yn gyfle hefyd i arddangos gwaith llafur Andrew a'i griw ffyddlon i ddarparu cyfleuster o safon i'n plant.

Un o ddarluniau'r wythnos o weithgareddau sy'n codi calon yw dechrau'r râs i blant. Pob un â'i wên ac yn barod i ymdrechu i'r eithaf. Y 'cymryd rhan' mor bwysig iddynt. Hwy'n gwybod hefyd fod eisiau cadw rhywfaint o egni ar gyfer eu disgo yn hwyrach yn yr wythnos. Y mae'r râs oedolion wedi hen ennill ei phlwyf a denwyd dros 80 o redwyr i gystadlu am y dorch eleni. Diolch hefyd i aelodau clybiau rhedeg am eu cefnogaeth parod.

Distawrwydd a 'llygaid i lawr' oedd hi yn y Bingo, a'r chwys yn llifo yn y ddwy ddisgo. Agor y llenni ac ymlacio yng nghwmni'r comediwyr oedd hi nos Wener, ac ambell i lasiad o win neu beint yn haeddianol i lawer. Eiliad i'w thrysori oedd galw Cled a Susan i'r llwyfan iddynt dderbyn gwerthfawrogiad pentrefwyr o'u cyfraniad cymdeithasol mewn sawl ffordd dros sawl blwyddyn.

Cafwyd cefnogaeth dda i weithgaredd y Sadwrn i gloi wythnos a ddaeth â phleser i lawer.

I bawb a gyfrannodd, ar ein rhan, DIOLCH!

**Ewrop yn Galw**
Mae'n siŵr fod llawer ohonom wedi gwylio ymddangosiad cyntaf tîm pêl-droed Caernarfon mewn cystadleuaeth Ewropeaidd. Danfonwyd y Crusaders yn ôl i Belfast wedi eu trechu o 2-0. Gobeithio bydd y ddwy gôl yn ddigon i weld y Caneris yn hedfan i'r rownd nesaf.

Braf yw canmol cyfraniad dau â chysylltiadau â Bethel – Gruff John a Danny Gossett. Dyma symbyliad i'r ambell seren yng ngharfannau pêl-droed cyfredol Bethel. Nid timau mawr Lloegr yn unig sy'n 'cyrraedd' Ewrop. A pha chwaraewr ifanc o'r gogledd na fuasai'n hoffi bod yn rhan o daith 'Tylwyth Teg' Wrecsam. Mae un neu ddau o Fethel eisoes yn eu Academi. Ymroddiad a gwaith caled piai hi, hogia. Gwrando yn y lle iawn, a gan y bobol iawn.

**Oedfaon**
Ni fydd oedfaon yng nghapeli'r pentref dros fis Awst. Dyma felly raghysbysiad o oedfaon mis Medi:

Bethel: 8/9 Parch. Cledwyn Williams; 15/9 Parch. R.E. Hughes; 22/9 Dafydd Iwan; 29/9 Arwel Roberts.

Cysegr: 8/9 Glyn Thomas; 15/9 Sul yr Ofalaeth, Caeathro (2.00pm); 22/9 Gweinidog; 29/9 Parch. R.O. Jones

**Dymuno'r Gorau**
Bu'n gyfnod cyffrous i'n plant a'n hieuenctid yn ddiweddar. Drwy y dagrau bydd rhai yn ffarwelio â chymdeithas glos, ofalgar Ysgol Bethel ac yn symud i'r 'ysgol fawr'.Dyma'r cam cyntaf iddynt ar y daith i'r dyfodol heriol o'u blaenau. Dymunwn yn dda iddynt, ac ewch â hyder ysgol Bethel gyda chwi.

I eraill, wedi chwysu y cyfnod arholiadol ac aros am ganlyniadau byddent hwy ar gymryd cam fras ymlaen i'w dyfodol. Boed yn goleg, gwaith, neu brentisiaeth dymunwn lwyddiant

I ysgol, nid arholiad – yn unig
yw meini datblygiad.
Mae doniau sy'n hau yr had
ddaw'n wreiddyn i wareiddiad.

**Holi**
Digwyddais sylwi ar apêl ar ein gwefan gymunedol yn ddiweddar. Ynddo, roedd mam yn gofyn am gefnogaeth i'w mab i gyflawni holiadur fel rhan o'i gwrs Bacaloriaeth. Maes yr ymchwil oedd 'Siop i Bethel'. Dyma destun trafod llawer yn ddiweddar. Ymysg y cwestiynau oedd: Angen Siop? Sut Siop? Ble i leoli'r Siop? Sut buasech chwi yn ateb?

Gwelwn gyswllt yma â dau ddatganiad cynnar y Llywodraeth Lafur Brydeinig newydd-anedig.

Dyma Lywodraeth y 'chwyldro' a 'newid' yn ôl y Prif Weinidog a'i weinidogion. Un datganiad cynnar oedd ym maes tai a chynllunio. Bellach bydd llacio ar reolau cynllunio. Bydd rhyddhau mwy o 'dir gwyrdd' i adeiladu y tai sydd wirioneddol eu hangen. Ni fu sôn am sut dai, ac i bwy, ac am pa bris.

Datganiad arall oedd y codiad ym miliau dŵr pob un ohonom. Mae angen yr arian gan y cwmniau dŵr i wella purdeb y dŵr, ymosod ar effeithiau carffosaeth ac ail osod systemau peipio dŵr sydd yn gollwng mor aml. Yn lle cyfrif lorïau Mansel, mae rhai bellach yn cyfrif faint o faniau BT neu'r Bwrdd Dŵr sy' ym Methel yn ddyddiol bron.

Ond yn ôl at y datblygiadau tai arfaethedig, a'r cysylltiad a gwasanaethau ynghlwm â hwy. Gwnes dipyn o ymchwil. Yn Llanrug ar hyn o bryd mae busnesau cigydd, Post, Spar, Co-op, trin gwallt, sglodion, busnes cerrig beddi a dwy dafarn. Ym mhentref bach Cwm-y Glo, garej (petrol a thrwsio moduron), Spar boblogaidd a chrochendy. Ym Methel, garej (gwerthu a thrwsio moduron), caffi cymunedol (diolch amdano) a Siop Fferm ar y cyrion. Ym Mhenisarwaun, dim. Ym Mrynrefail, y Caban.

Fy nghwestiwn syml yw beth sydd yn gwneud pentrefi – o wahanol maint poblogaeth – yn fwy deniadol nag eraill i ddenu gwasanaethau? Beth yw'r gost ychwanegol i'r pentrefwyr ddi-wasanaethau i siopa ac yn y blaen? O edrych ar y ddau ddatblygiad uchod – tai, cynllunio a dŵr (carffosaeth yn enwedig) beth yw ein darlun o Fethel y dyfodol. Un *sprawl* yn ymestyn am Gors Bach neu Gaernarfon? Y garffos yn ddi-reolaeth? Yr un ffordd droelliog i gerdded neu yrru i Llanrug?

Yn amlwg, mae pentref Bethel yn atyniadol i unrhyw adeiladydd am nifer o resymau. Beth yw ein gweledigaeth ni bentrefwyr a chynrychiolwyr cynghorol am Fethel yfory? Diddorol fydd gweld i ba benderfyniad daw ymchwil y gŵr ifanc. Rwyf mwy na pharod i'w gyhoeddi yn yr Eco.

**Paratoi**
Eisoes mae cangen Merched y Wawr, Bethel a'r Clwb Bro wedi ethol swyddogion am y flwyddyn nesaf.

Mae'r pwyllgorau eisoes wedi cyfarfod i drefnu eu cyfarfodydd am y tymor nesaf. Fel pob blwyddyn bydd y ddau fudiad yn barod i dderbyn aelodau newydd gyda chroeso. I'ch atgoffa mae Merched y Wawr yn cyfarfod yn y Neuadd ar yr ail nos Fercher yn y mis, a'r Clwb Bro am 1.30pm yn Festri Cysegr ar y pnawn Mawrth cyntaf yn y mis.

**Caffi Cymunedol Bethel**
Bydd croeso yn y nos yn y Caffi am gyfnod dros yr haf, a chyfeirir ato fel Bistro'r Bedol.

Ar 26ain a 27ain Gorffennaf, ac 2il a 3ydd Awst (nos Wener a nos Sadwrn) bydd y Bistro ar agor rhwng 4.00pm – 9.00pm ar gyfer diod a bwyd.

Yna fe drefnir 6 noson thematig.
25ain Gorffennaf: Noson Pizza a Peint
1af Awst: Noson Lasagne
8fed Awst: Noson Cyri
15fed Awst: Noson Bwrger a Peint
22ain Awst: Noson Tropic Tripsi a Tacos
29ain Awst: Noson Pizza a Peint.
Pris yr arlwy ar bob noson yw £10.

**Gwyliau**
I atgoffa ein darllenwyr ffyddlon ni fydd rhifyn o'r Eco wedi'r rhifyn yma tan rhifyn yr Hydref. Mae'n siwr bydd digon o ddigwyddiadau i'w cofnodi yn ystod cyfnod y gwyliau. Y dyddiad pwysig i gasglu'r cynnwys rhifyn Medi yw nos Wener, 13eg Medi.




## Testunau Eisteddfod Bethel, 5ed Hydref, 2024

**Cynradd**
**Cylch Meithrin**
Plant yn cael eu dysgu yn y Cylch

**Dosbarth Meithrin**
Unawd – Fuoch Chi Rioed Yn Morio
Llefaru – Wel Tydw i'n Ddel!
**Blwyddyn Derbyn**
Unawd – Heno Heno Hen Blant Bach
Llefaru – Pawb Yn Barod?
**Blwyddyn 1**
Unawd – Un Bys, Un Bawd
Llefaru – Dim Ond
**Blwyddyn 2**
Unawd – Sosban Fach
Llefaru - Sblash
**Blwyddyn 3 a 4**
Unawd – Cariad Mam
Llefaru – Y Fanana Unig
**Blwyddyn 5 a 6**
Unawd – Dy Enw Di
Llefaru – Ar Y We (penillion 1, 2, 4 a 6)

Unawd Piano Bl. 6 ac iau - hunanddewisiad
Unawd Offeryn (heblaw piano) Bl. 6 ac iau - hunanddewisiad
Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau - hunanddewisiad
Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau - hunanddewisiad
Parti Llefaru Bl. Derbyn, 1, 2 a 3 - Cliceti Clac
Parti Canu Bl. Derbyn, 1, 2 a 3 – Daw Hyfryd Fis Mehefin
Parti Llefaru Bl. 4, 5 a 6 – Amser Bwyd
Parti Canu Bl. 4, 5 a 6 – Yma o Hyd





**Adran yr Urdd**

Nos Fawrth, 9fed Gorffennaf mi fuon ni'n ffodus iawn o'r tywydd i gynnal ein taith gerdded noddedig. Cawsom hwyl wrth gerdded heibio Cefn Gwyn ac i lawr drwy'r Felinheli ac yn ôl i Fethel cyn cael sglodion a phitsa yn y Neuadd Goffa. Diolch o galon i Gwen, Sioned, Caryl ac Einir am baratoi'r bwyd ac i Gaffi'r Bedol ac Anti Rita am y cacennau. Diolch yn ogystal i bawb wnaeth ein noddi - pawb wedi bod yn ffeind iawn.

Dymuna Menna ddiolch o waelod calon i'r plant a'r rhieni am y cerdyn a'r anrhegion annisgwyl ar ddiwedd y tymor a phob dymuniad da i Einir, yr ysgrifenyddes newydd a'r tîm fydd yn ei chefnogi.









Gobeithir trefnu pwyllgor yn gynnal ym mis Medi er mwyn trefnu tymor arall o weithgareddau i'r plant yn Adran Bethel.

Mae'n obaith i gychwyn Uwch Adran ym Methel er mwyn cario 'mlaen y gwaith gyda'r plant hŷn yn y pentref. Bydd mwy o fanylion i ddilyn yn fuan.

Bydd yr holl ddarnau unawd a llefaru ar gael trwy Ysgol Bethel neu trwy Eirian Hughes-Davies, 07765 365624.

Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan yn y partïon, rhowch wybod i Eirian Hughes-Davies ar 07765 365624 erbyn 1af Medi 2024.

Bydd tlysau yn cael eu cyflwyno i'r unawdydd, llefarydd, pianydd, offerynnwr, parti canu a llefaru gorau yn yr oedran cynradd.

Bydd gwobrau teilwng yn cael eu rhoi i'r 1af, 2il a'r 3ydd ymhob cystadleuaeth felly dewch yn llu i gystadlu!

Bydd seremoni cadeirio'r Llenor Cynradd (gwaith a wneir yn yr ysgol) yn cael ei chynnal gyda'r nos yn ystod yr Eisteddfod.

**Cystadlaethau Cynradd ac Uwchradd**

Cân Gyfoes/Sioe Gerdd (Cynradd ac Uwchradd) – hunanddewisiad

Meimio i gerddoriaeth Gymraeg (Cynradd ac Uwchradd) - unigol neu grŵp - hunanddewisiad

Deuawd Cynradd ac Uwchradd - hunanddewisiad

Ensemble Offerynnol Cynradd ac Uwchradd - hunanddewisiad

Stori a Sain (darn i'w gael ar y noson)

Darllen darn heb ei atalnodi (darn ar gael ar y noson)

Cystadleuaeth dweud jôc (addas i'r Eisteddfod!) - hunanddewisiad

**Uwchradd**

Unawd Bl. 7 i 13 - (hunanddewisiol

Llefaru Bl. 7 i 13 - Gwely Haul

Unawd Piano Bl. 7 i 13 - hunanddewisiad

Unawd Offeryn (heblaw piano) Bl. 7 i 13 - hunanddewisiad

Parti Canu Uwchradd - hunanddewisiad

Parti Llefaru Uwchradd - Taith Iaith o Dŷ Nain i Dŷ Mamgu

Côr - agored - hunanddewisiad

**Llên**

Blwyddyn 7–9 – cerdd neu ryddiaith, hunanddewisiad

Blwyddyn 10–13 – cerdd neu ryddiaith, hunanddewisiad

**Bydd angen cyflwyno'r gwaith llên i law Eirian Hughes-Davies, Dolerw, Bethel, 07765 365624 erbyn 27ain Medi 2024.**

Bydd seremoni cadeirio'r Llenor Uwchradd yn cael ei chynnal gyda'r nos yn ystod yr Eisteddfod.

Bydd gwobr o £10 i enillwyr pob cystadleuaeth uwchradd, £8 i'r 2il, a £6 i'r trydydd. Rhoddir cwpanau neu dlysau i'w cadw am flwyddyn yn wobr mewn rhai cystadlaethau penodol.

**Cystadlaethau Cynradd ac Uwchradd**

Cân Gyfoes/Sioe Gerdd (Cynradd ac Uwchradd) – hunanddewisiad

Meimio i gerddoriaeth Gymraeg (Cynradd ac Uwchradd) - unigol neu grŵp - hunanddewisiad

Deuawd Cynradd ac Uwchradd - hunanddewisiad

Ensemble Offerynnol Cynradd ac Uwchradd - hunanddewisiad

Stori a Sain (darn i'w gael ar y noson)

Darllen darn heb ei atalnodi (darn ar gael ar y noson)

Cystadleuaeth dweud jôc (addas i'r Eisteddfod!) - hunanddewisiad

**Cystadlaethau (agored i oedolion/cymdeithasau)**

Cystadleuaeth Talent Bethel - agored i **gymdeithasau** Bethel (hunanddewisiad e.e. sgets, canu, côr). Gwobrau ariannol o £30 i'r 1af, £20 i'r 2il a £10 i'r 3ydd.

**Cystadleuaeth Limrig**

Ysgrifennu cerdd neu ryddiaith - hunanddewisiad

Bydd angen cyflwyno unrhyw waith llên i law Eirian Hughes-Davies, Dolerw, Bethel, 07765 365624 erbyn 27ain Medi 2024.

**Cystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod Bethel 2024**

I'w derbyn yn y Neuadd Nos Fercher, 2il o Hydref, rhwyng 6.00pm-7.00pm.

**Creadigol 2D – Agored (Ysgol Bethel i drefnu)**

| | |
|---|---|
| Cylch Ti a Fi | Blwyddyn 2 |
| Cylch Meithrin | Blwyddyn 3 |
| Meithrin | Blwyddyn 4 |
| Derbyn | Blwyddyn 5 |
| Blwyddyn 1 | Blwyddyn 6 |

**Creadigol 2D**
**Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 7 – 13

**Collâge Thema - Dathliadau**
Blwyddyn 2 ac iau    Blwyddyn 7 – 13
Blwyddyn 3 - 6

**Gwaith Creadigol 3D (e.e Model, Pyped, Cymeriad Cartwn) Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 2 ac iau    Blwyddyn 7 – 13
Blwyddyn 3 - 6

**Ffotograffiaeth (1 llun neu gyfes o luniau lliw neu ddu a gwyn) Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 2 ac iau    Blwyddyn 7 – 13
Blwyddyn 3 - 6

**Graffeg Cyfrifiadurol (Ffotograff wedi ei addasu) Thema - Dathliadau**
Blwyddyn 1 - 13

**Dylunio Logo ar gyfer Eisteddfod Bethel 2025**
Blwyddyn 1 - 13

**Cerdyn Cyfarch**
**Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 1 – 6    Blwyddyn 7 – 13

**Addurno logo ar gyfer Crys – T**
**Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 1 – 13

**Addurno Bisgedi**
**Thema – Dathliadau**
Blwyddyn 2 ac iau    Blwyddyn 3 – 6
Blwyddyn 7 - 13



# Dyddiadur y gath ddŵad 28

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Dydy cathod ddim yn hoffi lot o newidiadau yn eu cynefin. Tra bo pobl yn mwynhau cael dodrefn newydd ac yn hoffi ail-drefnu ystafelloedd, gall newidiadau fel hyn beri gofid i gathod. Gallwch fentro y byddant yn crwydro o gwmpas yn ogleuo’r dodrefn ac yn gadael eu hoglau nhw eu hunain arnynt. Mae peryg hefyd iddynt geisio perchnogi’r eitem newydd drwy ei grafu a’u hewinedd miniog, sydd ddim yn eu gwneud yn boblogaidd gyda’u perchnogion, er dydy cathod ddim yn dallt pam byddai pobl yn flin gan nad ydynt yn gallu gwahaniaethu rhwng beth sy’n iawn a beth sydd ddim. Gall symud dodrefn effeithio ar eu hoff lefydd i orffwys neu guddio, sydd eto’n achos iddynt deimlo’n anniddig.*

Roedd Bob yn falch iawn pan ddaeth y deu-droed tal yn ôl adref yn ddiweddar. A dyma fo felly yn parhau efo’i stori …


“Dwi’n falch iawn i’r deu-droed tal ddod i’r fei. Ond tra roedd o’n y ‘sbyty, daeth deu-droed diarth yma a newid y drysau! Dim syniad pam, ond roedd hyhi i’w gweld yn hapus bod hyn yn digwydd. Cathod a ŵyr pam. Pam bod isio newid y drysau? Ffordd o ‘nghadw i mewn neu allan o ystafell ydyn nhw, dim ots gen i pa liw ydyn nhw. Efo’r hen rai, gallwn weld drwyddynt o’r top i’r gwaelod ond dydy’r rhai newydd ddim mor gath-gyfeillgar. Mae yna bren yn y gwaelod felly dwi’n gorfod codi ar fy nwy bawen ôl er mwyn gweld pwy sy’n dod drwy’r drws, coeliwch chi fi, allwch chi ddim bod yn rhy ofalus yn y tŷ hwn. Er wnaeth hi wenu pan welodd hi fi’n gneud hynny’r bora cyntaf ar ôl gosod y drysau newydd.

Fel dwi wedi ei ddeud o’r blaen, mae’r deu-droediaid yn mynd a ‘ngadael i o bryd i’w gilydd, ond maen nhw bob amser yn dod yn ôl. Ar hyn o bryd mae’r un tal yn aros yma efo fi gan amlaf, tra mae’r ddeu-droed fach yn diflannu, ond dydy hi ddim yn hir. Mae o’n cerdded o gwmpas y lle efo un ffon bellach ac mae’r ffrâm metel roedd ganddo wedi diflannu i’r parlwr. Dwi wedi sylwi ei fod o hyd yn oed yn cerdded heb bwyso ar ffon weithiau! Cymryd felly ei fod o’n gwella, er dydw i ddim wedi ei weld o’n rhedeg ar fy ôl i eto…

Ond mae pethau eraill wedi newid yma’n ddiweddar.

Un o fy hoff lefydd i ista, gorwedd, ymolchi neu gael cyntun cath ydy’r soffa, yn enwedig pan nad ydy hi wedi golchi’r gorchudd am sbel ac mae’r oglau arno fo’n gartrefol o’u hoglau nhw a fi. Mae’r soffa’n handi hefyd os ydw i isio cuddio. Rhag be? Y peiriant swnllyd sy’n sugno llwch (dwi’n grediniol gallith o fy sugno fi i fyny i’w grombil) neu’r bwystfil mawr coch sy’n dod acw efo dau o’r deu-droediaid ifanc ac unrhyw ddeu-droediaid nad ydw i erioed wedi eu gweld o’r blaen. Rhaid cyfaddef bod y deu-droediaid bach wedi callio ond jest weithiau maen nhw’n symud yn gyflym neu’n gwichian yn uchel yn annisgwyl ac yn fy nychryn i! Os oes hwyl dda arnai wnâi adael iddyn nhw chwarae efo fi neu fwytho fy mlew hardd a llyfn. Cofiwch chi os oes raid mi wnâi ddengid i guddio y tu ol i’r soffa neu i’w chrombil os dwi’n wirioneddol ofnus.





Heddiw daeth dau ddeu-droed diarth yma, gan ddod a chadair newydd i mewn i’r tŷ. Cadair newydd, rywbeth tebyg i soffa fach. Wnes i guddio tu ol i’r soffa tra roedd hyn yn digwydd, ond mi ddiflannodd y dieithriaid reit handi. Ond roedd y ‘gadair’ peth yma dal yno pan fentrais i allan ac roedd o’n ista’n braf ynddi a’r ddau’n swnio’n hapus am ei bod hi’n ‘uwch’ na’r soffa! Dwi’n ista ar y soffa a gwylio ac ar ôl dipyn mae o’n symud i fynd drwy un o’r drysau newydd. Dwi’n bachu ar y cyfle a neidio ar y gadair, i weld os ydy mor gyfforddus â’r soffa.

Wwww ydy!! Chwarae teg iddyn nhw am ei gosod reit wrth ymyl y bocs tân sgwâr! Jest y peth i mi gael napan. Dwi’n deffro i sŵn y ddau’n chwerthin yn wirion. Bellach dwi’n hoffi’r gêm o bwy sydd bia’r gadair… Mae o’n gadael i mi ista ynddi ac yn mynd i ista’n rywla arall ond mae hi’n fwy blin ac yn fy hel fi i lawr…

Jest fel oeddwn i’n dechrau arfer efo’r ‘gadair’ mi landiodd cadair arall! Cadair iddi hi! Un llai, gan fod ei choesau hi’n fyrrach na’r deu-droed tal debyg iawn. Dau ddyn diarth eto yn fy nhŷ fi. Dwi’n cuddio ond och a gwae maen nhw’n tynnu’r soffa’n dipia ac yn ei chario hi allan o’r tŷ. Cathod o bob math! Be wnâi? Maen nhw wedi mynd a fy soffa i o’ma! Dwi’n mynd allan, i’r haul a chuddio tu ôl i’r blodau.

Ar ôl i’r dieithriaid ddiflannu mae hi’n dod at y drws a gweiddi fy enw! Naw wfft i hynny! Ocê maen nhw wedi mynd, ond mae hi wedi gadael y sugnwr llwch ar lawr, heb fod yn bell o fy mat bwyd! Dwi’m yn symud yr un bawen o’r fan, jest rhag ofn. Ond pan mae hi’n ysgwyd y paced danteithion does gen i ddim dewis, ond bod yn ddewr a’i gwadnu hi am y bowlen. Wrth gwrs mae hi’n cau’r drws a dwi’n y tŷ efo nhw a dwy ‘gadair’ a dim golwg o’r soffa. Be wnai? Mae hi hefyd wedi symud bob dim i bob man! Dwi’m yn dallt pam fod y deu-droediaid yma’n newid pethau o hyd. Mae’r ddau’n ista ar y ddwy ‘gadair’ newydd. Hold on Defi John! Lle dwi fod i ista felly? Maen nhw wedi gosod fy masged i ar lawr, rhwng y ddwy, ond prin fues i yn honno ers i mi symud o’r cwt i’r ty. Un dewis sydd yna felly, neidio i fyny ar ei phen hi, mae ei hoglau hi’n gyfarwydd, yn wahanol i’r ‘gadair’ newydd. Yna rhag iddo fo deimlo’n unig, dwi’n ista arno fo am sbel. Gwell byth mae hi’n codi i wneud ‘panad’ a dwi’n gweld fy nghyfle i drio’r gadair newydd hebddi. Mae’n fwy cyfforddus eistedd ar gadair ar fy mhen fy hun.

Dydw i ddim yn hoffi i bethau newid, ond mi wnai arfer dwi’n siŵr. Efallai fy mod i wedi colli soffa ond ennill dwy soffa lai (‘cadair’ yn eu hiaith nhw). Ar ddiwedd y dydd dwi’n hapus yma yn edrach ar eu holau nhw.”






Dewch am dro i’r siop am wledd o lyfrau i’ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Ysgol Gwaun Gynfi**
Cynhaliwyd gweithgareddau ardderchog yn ystod Wythnos Iechyd a Lles yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar gychwyn mis Gorffennaf.

Roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau ac wedi cael profiadau arbennig iawn.









Sgwrs gyda PC Dylan







Sesiwn Martial Arts gyda Marvin



Sesiwn canu gyda Ann a Bill

## Aduniad Ysgol Dyffryn Ogwen

Yn dilyn llwyddiant yr aduniad y llynedd i gyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen mae'r 'pedwar gwr doeth' wedi penderfynu cynnal un arall eleni. Mae'r aduniad yn agored i bob cyn-ddisgybl dros 70 oed. Buaswn yn falch pe gallech ledaenu'r wybodaeth i'ch cyfoedion.

Dyma'r manylion.

Dyddiad: nos Wener, 30ain Awst

Lleoliad: Clwb Rygbi Bethesda

Amser: 7.00pm

Adloniant: Hogia'r Bonc

Os ydych yn dymuno lluniaeth gellir ei ordro dros y bar ar y noson.

Edrychwn ymlaen i ail-gyfarfod – mor hwyliog ag erioed.

CWYR
YDY CLUSTIAU LLAWN CWYR YN EICH DAL YN ÔL?
GWASANAETH TYNNU CWYR AR GAEL YN EIN FFERYLLFA YN LLANBERIS
HOLWCH AM YMWELIADAU CARTREF

Fferyllwyr Llŷn
Fferyllfa I Ellis Jones, Llanberis
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

**Merched y Wawr**

Croesawyd pawb i gyfarfod cynta'r flwyddyn gan y cadeirydd Mrs Marian Jones, ym mis Chwefror wedi seibiant dros y Nadolig.

Daeth Arfon Bebb, Fferyllwyr Llŷn, sydd bellach wedi dod i redeg Fferyllfa Llanberis atom, gan sgwrsio am y gwahanol wasanaethau sydd bellach ar gael .Ar ddiwedd sgwrs ddifyr, diolchodd Ann Parry iddo a'i gwmni am ail ddechrau'r gwasanaeth i'r pentref a'r ardal.

Ar ddechrau mis Mawrth cafwyd cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd.

Ar ddechrau Ebrill daeth Rhys Mwyn i adrodd am hen strydoedd tref Caernarfon a'r hanes oedd yn gysylltiedig â hwy. Ar ddiwedd y noson diolchwyd iddo gan  Mrs. Helen Sharp.

Yn y cyfarfod nesaf daeth Twm Morus  i gyflwyno rhai o draddodiadau mis Mai, y gwanwyn, a'r gwcw. Yn cynnwys canu'r "Gog Lwydlas" i'w hunan gyfeiliant ar ei "flwch gwenyn" sef hen offeryn o'r India, y Shurti. Diolchwyd iddo gan Mrs Heather Lynne Jones.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd y trip ym mis Mehefin. Daeth criw da i lenwi bws newydd Bws Peris ac ymweld â'r Ysgwrn, Trawsfynydd yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i'r Bala ble cafwyd cyfle i siopa a mwynhau cinio a hufen iâ. Wedi'r pryd ymlaen eto at Ganolfan Pererin Mary Jones.  I orffen y diwrnod cafwyd pryd arall yng Ngwesty'r Eagles, Llanuwchlyn cyn troi am adref.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ym mis Medi.  Bydd y cyfarfodydd ar nos Fercher cyntaf pob mis.  Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.







Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
D. P. OWENS RHIWLAS

**Clybiau Crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis -** Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6:00pm tan 7.30pm Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** -yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2:00 - 4:00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r Haf, i fyny at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r Gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10:00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12:00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r Stampiau yn y Cyntedd neu i un o'r Swyddogion.


**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.
Dim oedfaon ym mis Awst!

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Gwasanaethau mis Awst a Medi**
Cynhelir gwasanaethau bob bore Sul am 11yb yn ystod mis Awst a Medi yn ogystal â Chymun Bendigaid am 8yb ar ddyddiau Sul Awst 25 a Medi 22.

# Gwaddol

Nofel gan
***Rhian Cadwaladr***




Hanes pythefnos dyngedfennol ym mywyd tair cenhedlaeth o un teulu ydi *Gwaddol*, nofel newydd Rhian Cadwaladr, yn taflu golwg ar berthynas mam a merch, galar a chariad.

Mae *Gwaddol* yn edrych ar y gwead cymhleth sy'n dal teulu ynghyd – y cystadlu a'r cenfigen, y dyletswydd a'r cariad – a sut mae hyn yn gallu newid wrth i'r to hŷn heneiddio a'r ieuenctid droi yn oedolion.

Mae Rhian yn hanu o Lanberis yn wreiddiol ond bellach yn byw yn Rhosgadfan, ac yn adnabyddus fel actor ac awdur. Medd Rhian Cadwaladr, 'Er bod y nofel yn delio â themâu difrifol mae yma gryn dipyn o hiwmor hefyd. Rydw i wedi trïo plethu'r llon a'r lleddf a chreu darlun o fywyd go iawn sydd, gobeithio, yn gredadwy. Yn sicr mae'r cymeriadau yn fyw yn fy meddwl i. Dwi wedi mwynhau eu creu nhw – nid yn unig y prif gymeriadau ond y cymeriadau ymylol, y cameos bach lliwgar fel Tez Tatŵs a Beti Coesa Cowboi.'

Er mai hon yw ei phumed nofel, tydi disgwyl am yr ymateb cyntaf i'r llyfr ddim yn mynd yn haws, yn ôl Rhian. 'Mae cyflwyno'r cymeriadau i'r darllenwyr yn deimlad od a phryderus – os rywbeth mae'n mynd yn waeth efo pob nofel gan 'mod i ofn eu siomi, ac er bod hyn yn mynd i swnio'n hollol boncyrs, dwi ofn gadael fy nghymeriadau i lawr!

Cafodd y nofel ei lansio yn ystod Gŵyl Arall yng Nghaernafon ddechrau Gorffennaf, ac mae hi ar gael yn eich siop lyfrau lleol.

Bydd gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun am 6:00pm ar y 29ain Medi.

**Enillwyr clwb 100 mis Mehefin**
1. Margaret Rees Jones
2. Llinos Jones
3. Elis Roberts

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.

Diolch yn fawr.



## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Awst**
4ydd Awst 9:30am Boreol Weddi
11eg Awst 4:00pm Gwasanaeth Teulu
18fed Awst 9:30am Cymun Bendigaid
25ain Awst 9:30am Cymun Bendigaid

Cynhelir gwasanaethau am 9:30am ym mis Medi, ar y 1af, 15fed, 22ain a 29ain a gwasanaeth teulu am 4:00pm ar 8fed Medi.

Hefyd cynhelir Boreol Weddi bob bore Mawrth am 9:30am.

Bydd gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun am 6:00pm ar 29ain Medi









# Ysgol Waunfawr

















Newyddion o'r ysgol ar ddiwedd blwyddyn ysgol arall.

Mae llu o weithgareddau wedi bod yn ystod y tymor gan gynnwys cystadlaethau a thripiau o bob math:

Taith Pili Palas
Taith i Gricieth
Ffair Haf
Twrnament Rygbi'r traeth a llawer mwy!

**Adrodddiad Estyn**

Mae'r ysgol yn ymfalchio yn fawr yn yr adroddiad gan Estyn yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r staff, rhieni, Llywodraethwyr a'r gymuned gyfan am eu cefnogaeth. Braf oedd clywed y sylwadau isod:-

'Mae Ysgol Gynradd Waunfawr yn ysgol hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos gofalgar, Cymreig a diogel lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae gofal a pharch yn treiddio trwy'r ysgol ac mae'r berthynas waith gefnogol rhwng y staff a'r disgyblion yn adeiladu hyder ac yn eu cefnogi i fwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda nodwedd amlwg i ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr gyda phwyslais clir ar hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru.'






**Profiad Gwaith**

Diolch i Cadi Gosset, Mirain Llwyd ac Erin Cook am ein cynorthwyo gyda wythnos profiad gwaith Brynrefail. Pob lwc i'r dyfodol genod!

**Mabolgampau**

Gwyrfai oedd yn fuddugol eleni a Iago Griffiths ac Erin Spencer yn ennill y nifer mwyaf o bwyntiau. Llongyfarchiadau iddynt.

**Ffarwelio**

Yr ydym yn ffarwelio gyda chriw arbennig iawn o blant Blwyddyn 6 - dymunwn pob llwyddiant iddynt yn Ysgol Brynrefail ac i'r dyfodol. Diolch i'w rhieni hefyd gyda nifer fawr ohonynt wedi bod ar Gorff Llywodraethol neu Bwyllgor Rhieni a Chyfeillion yr ysgol.

Mae tri aelod o staff yn ein gadael hefyd sef Anti Nicola Cymhorthydd Meithrin/Derbyn - pob dymuniad da iddi ar yr antur nesaf.

Gwych oedd cael cymorth Mr Caio ac Anti Lleucu am y flwyddyn aeth heibio - pob dymuniad da i'r ddau ohonynt yn y coleg fis Medi.

**Croesawu**

Bydd 16 o ddysgwyr Meithrin newydd yn ymuno gyda ni fis Medi - yr ydym yn edrych ymlaen yn arw at eu croesawu.

Gwyliau hapus iawn i holl staff a phlant yr ysgol. Mwynhewch y seibiant!

## WAUNFAWR

**Dymuniadau gorau**
Rydym yn dymuno'r gorau am adferiad buan i bawb sydd ddim wedi bod yn dda neu wedi cael triniaeth yn ddiweddar, gan gynnwys Dewi Jones, Dol y Coed; Irene Roberts, Pant Teg a Sulwen Lewis, Bryn Golau. Cofion cynnes atoch i gyd.

**Penblwydd arbennig**
Fesul degawd byddwn ni yn dymuno penblwydd hapus fel arfer, ond mae cyrraedd 99 oed yn achlysur arbennig hefyd dydi, felly llongyfarchiadau a chofion atoch Margaret Owen, Bryn Gwylan ar achlysur eich penblwydd ddechrau Gorffennaf.

**Cylch Meithrin Waunfawr – apel am wirfoddolwyr**
Er mwyn osgoi gorfod cau pan fydd staff yn absennol, mae'r Cylch yn chwilio am wirfoddolwyr wrth gefn i helpu ar adegau. Os ydych chi'n meddwl y gallwch fod o gymorth, cysylltwch â pwyllgorcylchwaunfawr@gmail.com

**Croeso i Waunfawr!**
Braf yw croesawu dau deulu newydd i'r pentref, sef Lowri Ifor ac Ifan Jones sydd wedi symud i fyw i Lys Gwyrfai. Daw Lowri o Gaernarfon ac Ifan o ardal Y Bala yn wreiddiol, a chroeso hefyd i Iestyn a Sophie Tyne Hughes a'u merch fach Nansi, sydd wedi symud i fyw i Bron Llewelyn. Un o Foduan ym Mhen Llŷn ydi Iestyn a Sophie yn wreiddiol o Borthmadog.

Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Diolch**
Dymuna teulu Menna Griffith ac Elfyn, Blaen y Nant, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a chydymdeimlad yn dilyn marwolaeth sydyn a thrist mam Menna, sef Ceinwen Hughes o Benygroes.

**Cwmni Fungi Foods – Tyn Yr Onnen**
Daeth y cwmni Fungi Foods, Tyn yr Onnen, Waunfawr i'r brig yn ddiweddar ar raglen Channel 4 *Aldi's Next Big Thing*. Golyga hyn bod madarch sy'n cael eu tyfu yn Nhyn yr Onnen yn cael eu gwerthu mewn 1,000 o siopau Aldi bellach. Er bod Gareth Griffith-Swain wedi ei fagu yn Llundain, dod yn ôl i Waunfawr i gartref ei fam, Helen, wnaeth o er mwyn datblygu ei fusnes. Cychwynnodd Gareth arni drwy dyfu madarch yn ei ystafell wely tra yn y coleg ac mae wedi llwyddo i ddatblygu hynny'n yrfa lwyddiannus iddo'i hun. Dymuniadau gorau i ti a'r cwmni i'r dyfodol Gareth.



**Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i Ellie Gosset, Berllan Las ar fod yn aelod o dîm pêl-rwyd llwyddiannus wnaeth ennill cystadleuaeth genedlaethol yn ddiweddar. Mae Ellie yn chwarae i dîm dan 17 oed Academi Gogledd Orllewin Cymru. Roedd y tîm wedi teithio lawr i Gaerdydd i chwarae yn y twrnament, a dod oddi yno yn fuddugol. Da iawn Ellie!



**Plaid Cymru**
Bu nifer o aelodau'r gangen yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi ymgyrch Liz Saville Roberts i gael ei hethol yn Aelod Seneddol dros yr ardal. Dyma'r unig ymgeisydd fu'n ymweld â'r pentref i gyfarfod etholwyr a chroesawu'r cyfle i siarad gyda'r pentrefwyr am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Diolch Liz!



**Cheerdance Uk a genod Weun!**
Cynhaliwyd cystadleuaeth *Cheerdance UK* yn y Winter Gardens, Blackpool yn ddiweddar, a chafodd dair o genod Waunfawr lwyddiant anhygoel yn y gystadleuaeth o dan 11eg oed. Daeth Loti Jên adref gyda gwobr 1af, 2il a 4ydd, Maia yn 1af ac 2il a Lois yn 6ed. Ardderchog genod!



**Tîm Pêl-droed Waunfawr**
Cafwyd noson i ddathlu diwedd y tymor i dîm pêl droed dan 11eg oed Waunfawr. Cafwyd gêm deuluol ar y cae, cyn symud i lawr i'r dafarn i barhau gyda'r gwobrau a'r dathlu. Dyma ddiwedd cyfnod yn sicr, gan mai dyma'r unig dîm oedd gan y pentref.

Gobeithio yn wir bydd digon o oedrannau iau i sefydlu timau unwaith eto yn y dyfodol.

Diolch i Darron Harries am yr wybodaeth ac i'r holl oedolion sydd wedi bod yn gwirfoddoli i sicrhau bod y plant yn cael y cyfle yma i chwarae dros eu pentref.



**Dathlu Parc Dudley**
Cafwyd bore ardderchog ym Mharc Dudley ar 30ain Mehefin, gyda gweithgareddau o bob math i blant ac oedolion er mwyn darganfod mwy am bwysigrwydd y safle yma o ran bioamrywiaeth. Cafodd yr oedolion fwynhau coffi am ddim gan Coffi Cofi a'r plant yn cael peintio wynebau yn ogystal â dysgu am goed, gwyfynod ac adar. Dyma lun o Begw a Llio, Llwyn Onn yn mwynhau'r diwrnod agored.

# Cwmni Weldpar – diwedd cyfnod

Yn dilyn cyhoeddiad fis diwethaf bod busnes Weldpar wedi dirwyn i ben yn dilyn ymddeoliad Shirley Parry, mi gytunodd Shirley i roi'r hanes ar bapur i ni ddarllenwyr yr Eco:




'Dechreuwyd Weldpar Cymru yn Medi 1987 gan Brian Parry (y gŵr) yn gwerthu offer weldio a nwyddau peirianyddol. Yn flaenorol roedd wedi gweithio fel weldar yn McKenzie & Brown yng Nghaernarfon ac i gwmni o'r new Uniweld yn gwerthu offer weldio.

Yn 1989 wnes i, Shirley, ymuno yn y busnes yn rhan amser i ddechrau tra roedd Ieuan a Dafydd ein meibion yn tyfu fyny. Yn 1991 mi brynom Arosfa oedd gyda siop wrth ei ochor, ac ar ôl ei altro gwnaethom redeg y busnes oddi yno.

Yn haf 1999 mi werthom Arosfa a symud i safle Whiteways, cyn safle yr Hafod Body Shop. Wnaethom ni roi to a ffrynt newydd ar y rhan pen o'r garej a lleoli swyddfa mewn portacabin o flaen y garej.

Yn anffodus aeth Brian yn sâl ym mis Mawrth 2001 ac fe fu farw yng Ngorffennaf 2001.

Roedd yn amser anodd i ni ond penderfynais i gario ymlaen i redeg y busnes a gweld sut oedd hi yn mynd. Roedd sefydlogrwydd i'r hogia oedd yn Ysgol Syr Hugh yn bwysig iawn i mi.

Yn 2005 caeodd Hafod Body Shop ac fe gawsom symud i mewn i'r rhan mawr o'r garej, ac yn 2006 prynwyd plot ar gongl y garej ar gyfer adeiladu siop a storfa newydd. Fe wnaeth Terry Parry (brawd Brian) gymryd yr awennau efo'r adeiladu ac o dan ei arweiniad roedd yr adeilad yn barod i ni symud iddo yn Ebrill 2008. Roedd yn nefoedd cael bod mewn adeilad glân, cynnes a phwrpasol o'r diwedd.

Roedd gennym dipyn o gwsmeriaid da a ffyddlon yn lleol ac ar draws Gogledd Cymru. Byddai'r fan yn trafeilio i Ben Llŷn, Meirionnydd, Ynys Môn, Sir Conwy a Sir Ddinbych yn wythnosol.

Mae blynyddoedd yn carlamu ac mewn dim mae'r oedran ymddeol wedi cyrraedd (ac wedi pasio!!). Mae gen i 3 o wyrion ifanc erbyn hyn ac mae'n hen bryd cael mwy o amser i mi fy hun.

Mi wnes werthu'r busnes ar y 6ed Mehefin 2024 i Weldgas Cymru, fydd yn gwerthu popeth o'u safle yng Ngaerwen ac yn cario ymlaen i ddanfon i fy nghwsmeriaid.


Roedd yn rhyfedd gadael yr awennau i fynd ar ol 35 mlynedd ond does dim yn parhau am byth.

Edrych ymlaen rwan i fywyd gwahanol - dipyn o arddio, beicio ar y beic lectric newydd, crwydro a gwarchod Guto, Cai ac Iago, yr wyrion bach.'

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191



Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn,** Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

Peiriannydd Carafan Teithiol MD Caravans MCEA

Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

# Nodiadau Natur

Y peth anoddaf, wrth fynd ati i ysgrifennu'r golofn hon, yw dewis a dethol beth i'w drafod.  Mae cymaint o bethau ym myd natur sy'n fy swyno a'm rhyfeddu.  Fodd bynnag y blodau pia'r sylw yn y rhifyn hwn.  Dau flodyn yn benodol, sydd i'w gweld yn aml hyd ochrau'r ffyrdd, wrth i chi basio ar droed neu yn y car, ac yn werth eu gweld.  Gychwynna'i efo un planhigyn oedd bob amser yn fy swyno pan oeddwn yn blentyn cyn mynd ati i drafod planhigyn sy'n fy swyno ar hyn o bryd oherwydd ei harddwch a'i amledd.

Cofiwch fod can croeso i unrhyw un ymateb i'r cynnwys neu i rannu eu gwybodaeth am fyd natur efo ni.


Clust y Llygoden

**Clust-y-llygoden-euraid (*Pilosella aurantiaca)***
Pan oeddwn yn hogan fach ac yn ymweld â fy nhaid a nain yn Llangybi, roeddwn bob amser yn dotio at y blodau oren hardd yma oedd yn tyfu yn y waliau pridd a cherrig.  Doedd gen i ddim syniad beth oeddan nhw ond yn sicr doedden nhw ddim i'w gweld o gwmpas fy nghartref i.

Dysgais erbyn hyn mai'r enw cyffredin Saesneg arno yw '*fox and cubs'* ac yn wir mae'n debyg i lwynog a'i chenau.  Enw arall Saesneg arno yw '*Orange hawkweed'*.  Caiff hefyd ei alw'n Heboglys Euraid yn ogystal â  Heboglys Aurafalog yn y Gymraeg ac mae'n perthyn i'r teulu *Asteraceae*, enw sy'n dod o'r genws mwyaf lluosog o'r teulu sef yr '*Aster*' sydd yn ei dro'n tarddu o'r Groeg ac yn golygu seren.

Mae'n blanhigyn blodeuol sy'n perthyn i deulu llygad y dydd, ond nid yw'n blanhigyn cynhenid i Gymru ond yn hanu yn hytrach o ardaloedd mynyddig yn Ewrop.

Mae'n blanhigyn sy'n tyfu'n isel gyda gwreiddiau bas efo *rosèt* o ddail hirgrwn tua 5 i 20 centimedr o hyd a 1 - 3 cm o drwch (*broad*).  Mae pob rhan o'r planhigyn yn rhyddhau sudd gwyn.  Mae blewiach byr du yn gorchuddio'r coesyn a'r dail a gall y coesau dyfu hyd at 60cm o daldra, gyda rhwng 2 i 25 o bennau blodau ar bob un.  Mae'n blodeuo'n ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf.  Gall y blodau amrywio mewn lliw o oren, lliw rhwd , coch a melyn ac mae nifer o beillwyr yn ymweld â nhw, megis sawl rhywogaeth o wenyn, ieir bach yr haf a phryfetach.  Ar ôl iddynt flodeuo maent yn cynhyrchu pennau o hadau, sy'n debyg i gloc y dant y llew, a chaiff yr hadau unigol eu gwasgaru ar y gwynt, pob un ar ei barasiwt gwyn unigol.  Gallant hefyd atgynhyrchu drwy'r system wreiddiau.  Golyga hyn y gall fod yn blanhigyn ymledol, er mae modd i'w gadw dan reolaeth .

**Brenhines y Weirglodd (*Filependula ulmaria*)**
Rwyf wrth fy modd efo'r planhigyn lluosflwydd, hardd a hyfryd hwn sy'n perthyn i'r teulu *Rosaceae*.  Mae'n tua 60 - 120 cm o daldra ac mae iddo nifer o goesau brown sy'n dwyn clystyrau o fân flodau o liw hufen.  Mae pob blodyn unigol yn fach iawn ond mae llawer iawn ohonynt yn glystyrau ar ben y coesyn.  Mae arogl hyfryd a phersawrus ar y blodau ac arogl ychydig llymach ar y dail.

Efallai bod y persawr hyfryd yn esbonio'r enw Saesneg a roddwyd ar y planhigyn hwn sef  '*Meadowsweet'*.  Enwau eraill Cymraeg yw Bugeiles y Weirglodd, Blodau'r Mêl, Llysiau'r Forwyn, Meddlys ac un o fy hoff enwau i, Erwain.

Mae'n blodeuo o fis Mehefin tan fis Medi ac os ydach chi'n pasio heibio waliau'r Faenol mi welwch fôr ohonynt yn harddu'r tir rhwng y lôn fawr a'r waliau.  Mae'n tyfu ar hyd tiroedd Cymru yn enwedig ar dir sydd ychydig yn wlyb, megis corsydd, ymylon ffosydd, gwrychoedd ac wrth gwrs gweirgloddiau (sy'n rhan o'r enw) sy'n damp.

O ran diddordeb, yn y Mabinogi roedd yr Erwain yn un o'r tri blodyn ddefnyddiodd y dewin Gwydion i greu Blodeuwedd, priodferch hardd ond anffyddlon Lleu Llaw Gyffes. Os ydach chi'n ifanc ac yn sengl roedd merched ifanc ers talwm yn rhoi'r blodau yn eu gobenyddion er mwyn denu cariadon.

Ar nodyn mwy ymarferol gall fod yn blanhigyn meddyginiaethol defnyddiol.  Gall te o'r blodau iachau'r ffliw, wella cur pen a chryd y cymalau.  Mae'n debyg ei fod yn effeithiol oherwydd yr asid salisylig sydd ynddo.

Da ydy Natur!


Erwain





# Ysgol Brynrefail

**Deuddydd Iechyd a Lles Ysgol Brynrefail, Gorffennaf 2024**
Yn ystod ein deuddydd o weithgareddau Iechyd a Lles ym mis Gorffennaf eleni rydym yn hynod falch ein bod wedi gallu cynnig arlwy eang o brofiadau i ddisgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9. Golyga hynny bod tua 300 o bobl ifanc yr ardal wedi elwa o gael gwneud gweithgareddau gyda'u ffrindiau yn hytrach na dilyn eu hamserlen arferol o wersi yn y dosbarth.



Mae hybu iechyd meddwl a chorfforol iach yn bwysig iawn i ni yn yr ysgol a dyma oedd ffocws y gweithgareddau - mewn oes pan mae pobl ifanc yn treulio llawer o amser o flaen sgrîn mae'n bwysig ein bod yn cynnig cyfleoedd iddynt flasu a phrofi profiadau gwahanol i'r arfer. Wrth drefnu rydym wedi gwneud ein gorau i ymateb i farn pawb a cheisio cadw cost y deuddydd yn rhesymol - mae'n anodd plesio pawb ond rydym yn gobeithio ein bod wedi gallu plesio'r rhan fwyaf!

Bu disgyblion Blwyddyn 7 yn beicio o Gaernarfon i Groeslon ac yn ôl ar hyd Lôn Eifion. Buon nhw hefyd am dro cerdded tuag at Felinheli a threulio dipyn bach o amser yng Nghaernarfon. Ar yr ail ddiwrnod fe aethon nhw am dro i ardal Llanberis, Parc Padarn, Castell Dolbadarn a cherdded ar hyd y Lôn Las ar hyd Llyn Padarn i gyfeiriad Pen-llyn. Buon nhw hefyd yn gwrando ar Gareth Roberts, o Fenter Fachwen, a dysgu mwy am hanes difyr a chyfoethog yr ardal a gwneud gwaith cerdd, drama a chelf yn ystod y dydd hefyd.

Aeth disgyblion Blwyddyn 8 am dro yn ardal Eryri gan gerdded taith 6 milltir hyfryd o Ryd-Ddu i Feddgelert - roedd cyfle i gael hufen iâ haeddiannol ar ddiwedd y dydd. Buon nhw hefyd, ar ddiwrnod arall, yn chwarae chwaraeon amgen fel golff-droed, ffrisbi, pêl-fasged cadair olwyn, pêl-foli a rownderi.





Caiacio ac adeiladu rafft mewn timau ar Lyn Padarn oedd un o brofiadau disgyblion Blwyddyn 9. Hefyd, buon nhw ar daith gerdded 9 milltir o Nant Peris, i fyny i'r chwarel ac yn ôl i'r ysgol drwy Fachwen a Phenisarwaun.



**Senedd Ieuenctid Cymru**
Ar ddydd Mercher, 3ydd Gorffennaf daeth Ann Owen-Williams o Senedd Ieuenctid Cymru atom i gynnal dau weithdy difyr dros ben. Daeth disgyblion Cynghorau Blwyddyn 10 a 12 i'r gweithdy cyntaf a blynyddoedd 7, 8 a 9 i'r ail weithdy a dysgu am ein Senedd yng Nghaerydd, hanes ei sefydlu a'r pwerau sydd ganddi. Yn dilyn hynny cyflwynwyd gwybodaeth am y senedd ieuenctid a sut mae pobl ifanc ar draws Cymru yn cael eu hethol bob dwy flynedd i drafod materion sydd o bwys iddyn nhw yn y senedd arbennig yma. Roedd yn wych o beth clywed sut mae gennym ni yng Nghymru fforwm sy'n rhoi cyfle i leisiau pobl ifanc gael eu clywed. Ein gobaith yn dilyn y gweithdai hyn yw y bydd un o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn awyddus i sefyll yn etholiad y Senedd Ieuenctid nesaf yn mis Medi.

**Cyfarfod Cynghorau Ysgol yn Ysgol Brynrefail**
Daeth disgyblion cynghorau ysgol Ysgol Tryfan, Creuddyn a Dyffryn Conwy at ein Cyngor Ysgol ni i gyfarfod arbennig ar ddydd Mawrth, 2il Gorffennaf. Tywyswyd nhw ar daith o amgylch yr ysgol gan rai o aelodau ein Cyngor Ysgol ni. Roedd yr ymwelwyr wedi gwirioni â pha mor glên oedd y disgyblion a'r staff a welsant ar eu taith o amgylch yr adeilad i wahanol ddosbarthiadau a gwersi. Roeddent yn awyddus i nodi bod yr awyrgylch yn braf iawn o amgylch y safle.

Yn dilyn y daith o amgylch y safle cafwyd cyfle i rannu gwybodaeth gyda'r ysgolion eraill am yr wythnos arbennig iawn a gawsom yma'n ddiweddar i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwroamrywiol. Cawsom hefyd gyflwyniad gan Ysgol Dyffryn Conwy am y newidiadau i'w trefn gwrth-fwlio. Mae'r cyfleoedd hyn i rannu gwybodaeth fel cynghorau ysgol y pedair ysgol wedi bod yn fuddiol iawn yn ystod y flwyddyn. Rydym eisoes wedi ymweld ag Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy. Edrychwn ymlaen at ymweliad ag Ysgol Tryfan y tymor nesaf.





**Prom 2024 – dathlu diwedd cyfnod blwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail**

Ar ôl yr holl baratoi ac edrych ymlaen cynhaliwyd Prom Blwyddyn 11 yng Ngwesty'r Victoria Llanberis ar ddydd Gwener, 28ain Mehefin.

Ar y diwrnod mawr roedd neuadd yr ysgol wedi ei haddurno gan falŵns a bythau tynnu lluniau ac erbyn diwedd y bore roedd yn llawn o ddisgyblion oedd yn edrych yn fendigedig yn eu gwisgoedd hyfryd. Daeth y rhieni i'r neuadd hefyd i fod yn rhan o ddathlu diwedd pum mlynedd hapus y disgyblion yn yr ysgol.

Wedi teithio draw i Lanberis cafwyd gwledd arbennig yn yr ystafell fwyta. Yna rhannwyd gwobrau arbennig i'r disgyblion



gan brif ddisgyblion blwyddyn 11 cyn mynd i'r ardd i dynnu lluniau ac yna i'r disgo oedd wedi ei drefnu'n arbennig. Diolch i bawb oedd yn rhan o'r gwaith trefnu ac i'r disgyblion eu hunain am



ymddwyn yn wych trwy gydol y dydd. Rydym wedi mwynhau cwmni pob un ohonoch chi dros y pum mlynedd diwethaf ac yn dymuno'r gorau i bawb yn y dyfodol.





## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**

Bu rhaid ail-drefnu ein cyfarfod fis Mehefin, pan oedd pryd awyr agored ar y gweill ac arlunio yng nghwmni Mr Glyn Price. Er y siom na allai ddod atom roedd y tywydd o'n tu ac yn noson braf i gynnal gweithgaredd y tu allan. Gwahoddwyd aelodau o Sefydliad Carneddi atom i gael cystadleuaeth mewn gêm o Boccia a chwarae'r gêm yn yr awyr agored ar y maes aml-dywydd. Cafwyd cystadleuaeth dda a changen Carneddi yn ennill. Trefnwyd y lluniaeth yn dilyn gan Pat gyda Vera, Elinor a Carol wedi bod yn paratoi y cyfan i'w weini i bawb mewn cartonau unigol.

Cafwyd cyfle yn dilyn i gyflwyno Llythyr y Mis gan ein Llywydd Pat Jones a thrafod y trefniadau ar gyfer y wibdaith mis nesaf. Diolchwyd am noson arbennig ac am y lluniaeth gan aelodau cangen Y Carneddi.

Edrychir ymlaen am ein taith flynyddol ar 17eg Gorffennaf yn cychwyn o Arvonia, Llanrug am 9 y bore i Allfa Tweedmill am ginio ac yna i Bodrhyddan Hall am 2 y prynhawn i fwynhau y Neuadd a'r Gerddi gyda thywysydd, a chael lluniaeth ysgafn cyn dychwelyd gartref.

Bydd y cyfarfod nesaf fis Medi yng nghwmni un o feddygon Meddygfa Llanberis pryd y trafodir iechyd merched.

**Cydymdeimlad**

Gofid dwys i nifer ohonom ym Mrynrefail oedd deall am ymadawiad disymwth Robert John Williams, Tyddyn Badin, Pentir. Roedd yn adnabyddus i lawer fel un a fagwyd yn y Fron Chwith, Rhiwen cyn mynd ymlaen i ffermio yn Nhyddyn Badin. Roedd wedi cartrefu yn ein plith ym Mrynrefail ers pan ymaelododd yn y Capel lawer blwyddyn yn ôl. Fe'i cofiwn am ei ffyddlondeb arbennig a'i gyfraniad i'r oedfaon, ei hoffter o emyn a thôn a cherddoriaeth fel aelod selog o gorau meibion. Byddwn oll fel cyfeillion yn colli ei gwmniaeth diddan, ei garedigrwydd a'i ymarweddiad boneddigaidd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu profedigaeth o golli cymeriad triw ac annwyl iawn.

Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

# Ysgol Llanrug

**Dymuniadau gorau**
Diolch yn fawr iawn i Mrs Alaw Siôn am ei chyfraniad gwerthfawr yn Ysgol Llanrug a phob dymuniad da iddi. Byddwn yn croesawu Mr Ilan Jones fel athro Cyfnod Allweddol 2 ym mis Medi.





**Mabolgampau**
Cynhaliwyd mabolgamau'r ysgol yn ddiweddar - da iawn i'r plant i gyd am wneud yn wych!



**Gwalltiau Gwirion**
Roedd pawb wedi bod yn greadigol iawn wrth baratoi at Gwener Gwalltiau Gwirion!

**Tripiau Ysgol**
Fe wnaeth y disgyblion i gyd fwynhau tripiau ysgol yn ystod wythnosau olaf y tymor.

















**Blwyddyn 6**
Cafodd Blwyddyn 6 orffen y tymor trwy ymweld â Zip World. Cafwyd diwrnod gwerth chweil a diweddglo gwych i dymor hynod o brysur! Trefnwyd 'Cinio Ffarwel' ar eu cyfer hefyd er mwyn dathlu eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Llanrug.

Cynhaliwyd gwasanaeth ffarwel arbennig ar gyfer disgyblion a rhieni blwyddyn 6. Pob dymuniad da i bob un sydd yn ein gadael eleni ac yn trosglwyddo i'r Uwchradd. Diolch hefyd i'r rhieni sydd wedi ein cefnogi yn yr ysgol ar hyd y blynyddoedd.

# LLANRUG

**Gair o ddiolch**
Dymuna Mrs Hefina Jones, 8 Rhosrug ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, arian, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn gydymdeimlad llwyraf â Rhydwen Pugh a'i brawd Harry Hughes o Stâd Glanffynnon ar golli eu brawd Emyr, a hunodd yn dawel yng nghwmni ei deulu ar Orffennaf yr 8fed. Rydym yn meddwl am y teulu oll yn eu colled yn y cyfnod hynod anodd yma.

**Capel y Rhos**
Yn drist iawn, rydym wedi colli aelod arall o'n plith ddiwedd Mehefin sef Mrs. Buddug Hughes, Isallt. Fe fu'n aelod ffyddlon iawn ar hyd y blynyddoedd hyd nes i'w hiechyd ddirywio. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'i chwaer Dorothy a'i phriod Tecwyn yn ogystal â gweddill y teulu, ei chymdogion a'i ffrindiau.

**Oedfaon mis Medi**
1af Medi - Y Barch. Nerys Anne Griffiths ein gweinidog
8fed Medi - Oedfa i'w threfnu
15fed Medi - Oedfa'r Ofalaeth yng Nghaeathro am 2 o'r gloch
22ain Medi - Mr. Eurfryn Davies
29ain Medi - Y Gweinidog

**Penblwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau i Rhodri Llwyd, Y Goedlan fydd yn dathlu ei benblwydd yn 50 oed ar 27ain Awst ac i'w nai Berian Llwyd, Glasgoed fydd yn 18 oed ar Awst 31ain. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Sara Jones am ennill gradd gydag anrhydedd mewn cwnsela a chymhwyso fel cwnselydd. Cariad mawr a da iawn chdi gan Meirion, Dafydd, Aled a Twm (y ci).

**Hafan Elan**
Ddiwedd Mehefin, aeth criw ohonom draw i Gartref Bontnewydd i gofio am y cyn filwyr. Diolch i'r gogyddes Sheila am baratoi cinio blasus iawn fel arfer ac am y croeso gafwyd yno.

Byddwn yn mynd yno eto i gefnogi y Tê Prynhawn Mefus ac wedyn i'r Ffair Haf ddiwedd Gorffennaf.

Mae cryn edrych ymlaen hefyd at ein trip ar 16eg Awst i weld y sioe Chitty Chitty Bang Bang yn Venue Cymru, Llandudno. Cyfnod prysur arall o'n blaenau!

**Pob hwyl dros y gwyliau**
Rydym yn dymuno gwyliau dedwydd i bawb dros wyliau'r haf, gan obeithio y bydd y tywydd yn ffafriol! Heb os, bu'n dymor hynod o brysur i blant a phobl ifanc y pentref dros yr wythnosau aeth heibio, gyda llu o wahanol weithgareddau ymhob cwr, cystadlu a pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod a'r gwaith adolygu hir ar gyfer yr arholiadau. Seibiant haeddiannol i bawb rŵan!

**Pennod newydd**
Rydym yn dymuno'r gorau a phob lwc i bawb fydd yn dechrau ar bennod newydd fis Medi; boed hynny'n ddechrau ysgol newydd, yn gadael cartref am y tro cyntaf i ddilyn astudiaethau pellach mewn prifysgol, neu ddechrau swydd newydd. Pob hwyl i chi gyd, a mwynhewch! Fe fydd pob profiad yn werthfawr.



**Noson lansio nofel ddiweddaraf Mair Wynn Hughes, Y Bocs Erstalwm yn Llyfrgell Caernarfon, gyda Gwerfyl Pierce Jones, cyn bennaeth Y Cyngor Llyfrau yn cyflwyno'r noson, a'i chyn gydweithiwr yn y Llyfrgell, John Dilwyn Williams yn holi ac yn sgwrsio gyda hi am ei gwaith.**



**Pawb yn mwynhau bwyd blasus Caffi Ni yn Nefyn.**



**Swyddogion Cangen Merched Y Wawr Llanrug ar gyfer 2024 - 2025 yn cael eu cyhoeddi yng nghyfarfod blynyddol y gangen fis Mai: Meirwen Lloyd (Ysgrifennydd), Bethanne Williams (Cadeirydd) a Pat Jones (Trysorydd).**



**Rhai o'r aelodau yn mwynhau heulwen Pen Llŷn.**



**Henri Bolton o Lanrug a wnaeth gwblhau y Diabetes Wellness Walk yn Lerpwl ddydd Sul Mai 19eg, a chodi £210 o bunnau i'r elusen.**



**Bethanne yn cyflwyno blodau i Ann Ifans, i ddiolch iddi am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd fel Gohebydd y Wasg Cangen Merched Y Wawr Llanrug.**



**Rhai o aelodau Cangen Merched Y Wawr Llanrug yn yr Amgueddfa Forwrol fel rhan o'r wibdaith i Nefyn yn ystod mis Mehefin.**

# Gwynedd yn cael cydnabyddiaeth fel cymuned oed-gyfeillgar

Mae Gwynedd wedi ei chydnabod fel Cymuned Oed Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), yn dilyn cais llwyddiannus dan arweiniad Cyngor Gwynedd.

Golygai hyn fod y Cyngor, a mwy na 30 o bartneriaid, yn cydweithio i sicrhau fod Gwynedd yn le dymunol, diogel a hygyrch i bobl wrth iddynt heneiddio.

Gwynedd yw'r chweched sir yng Nghymru i gyrraedd y nod yma a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod pob sir yng Nghymru i fod yn oed gyfeillgar erbyn 2026.

Er mwyn cyrraedd y garreg filltir nodedig hon, cyflwynodd Cyngor Gwynedd gynllun strategol i Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn dangos sut bydd yr awdurdod a phartneriaid allweddol – sy'n cynnwys grwpiau gwirfoddol a chymdeithasau tai – yn cydweithio i sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn oed-gyfeillgar, yn dathlu llwyddiannau yn y maes a chyn bwysiced yn adnabod beth sydd angen ei ddatblygu er budd pobl wrth iddynt heneiddio.

Bydd Partneriaeth Oed-Gyfeillgar Gwynedd nawr yn bwrw 'mlaen i ddatblygu cynlluniau ac yn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau yn nhymor yr hydref er mwyn dathlu a rhannu'r gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Adran Oedolion, Iechyd a Llesian a Phencampwr Oed-Gyfeillgar Gwynedd:

"Rydw i'n hynod falch o'r cydweithio sydd wedi bod yma yng Ngwynedd rhwng y Cyngor a'r holl bartneriaid i sicrhau bod pobl hŷn yn ganolog i'n gwaith a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau fod y sir yn le braf, hygyrch a theg i bawb, waeth beth yw eu hoedran.

"Mae dros 1,400 o ddinasoedd, siroedd a chymunedau ar draws 50 o wledydd drwy'r byd yn Oed-Gyfeillgar erbyn hyn a'n gobaith yw y bydd ymuno a'r rhwydwaith byd eang hwn yn gyfle i Wynedd ddysgu a rhannu profiadau gyda chymunedau eraill ar draws y byd.

"Dwi'n pwysleisio mai dim ond dechrau'r daith ydi hyn, gyda llawr o waith o'n blaenau fel partneriaeth er mwyn sicrhau y gall pawb o bob cefndir heneiddio'n dda yma yng Ngwynedd."

Dywedodd Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

"Hoffwn longyfarch Cyngor Gwynedd am ei gais llwyddiannus i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd fel rhan o'i waith i wneud ei gymunedau'n fwy oed-gyfeillgar.

"Mae hyn yn cadarnhau ymrwymiad Gwynedd i sicrhau bod ei holl drigolion yn cael eu cefnogi i heneiddio'n dda ac yn dangos y cynnydd rydym yn ei wneud yng Nghymru i ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid blynyddoedd at fywyd yn unig.

"Bydd ymuno â'r Rhwydwaith yn darparu cyfleoedd i ddysgu gan ddinasoedd, cymunedau a sefydliadau eraill ledled y byd, yn ogystal â galluogi Gwynedd i dynnu sylw at y gwaith mae'n ei wneud i gefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda ar lwyfan byd-eang.

"Rwy'n falch iawn bod awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi dod yn aelod o'r Rhwydwaith, a bod llawer o rai eraill wrthi'n cwblhau eu ceisiadau eu hunain i ymuno, sy'n dod â ni gam arall yn nes at wireddu ein huchelgais o Gymru sy'n oed-gyfeillgar."

Ychwanegodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan: "Rŵan ein bod wedi derbyn y gydnabyddiaeth hon y cam nesaf i ni fydd i fynd allan unwaith eto i gwrdd â phobl Gwynedd er mwyn gwrando a dysgu beth sydd ei angen.

"Rydym yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar draws y sir yn yr hydref er mwyn symud yr agenda yn ei blaen. Bydd y sesiynau yn gyfle i bobl rannu profiadau ond hefyd yn gyfle i'r holl bartneriaid rannu'r hyn sydd ganddynt ar waith."

Mae'r Cyngor yn datblygu ffyrdd newydd o gysylltu â phobl sydd â diddordeb yn y maes. I gofrestru i dderbyn gwybodaeth am y rhaglen Gwynedd Oed Gyfeillgar, cysylltwch os gwelwch yn dda naill ai ar e-bost: OedGyfeillgar@gwynedd.llyw.cymru neu ysgrifennwch at Gwynedd Oed Gyfeillgar, d/o Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant, Pencadlys Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH.

Mae mwy o wybodaeth, a chopi o'r cynllun gweithredu, ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: Gwynedd Oed Gyfeillgar (llyw.cymru)

# Un funud fach ...

## GLYNU WRTH Y GWIR

Mi fydd Etholiad; ond wedi'r hyn a ddigwyddodd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg, mae canlyniad hwnnw bellach yn anochel. Heb os, bydd delwedd y wyneb gwaedlyd a'r dwrn cadarn a'r floedd herfeiddiol, '*Fight*', wedi'r ymosodiad ar Donald Trump yn Butler, Pennsylvania'n sicrhau ail dymor iddo yn Y Tŷ Gwyn. A phwy a ŵyr beth a wnaiff wedyn? Disgwylid iddo ddefnyddio'i awdurdod i'w ryddhau ei hun o bob cyhuddiad ac euogfarn os deuai'n Arlywydd. Mae'n bosib na fydd raid iddo wneud hynny bellach gan fod y cyhuddiadau eisoes yn cael eu gollwng. O hyn hyd ddydd yr Etholiad, caiff ei bortreadu fel yr un a erlidiwyd yn annheg; ac iddo fo a'i gefnogwyr, mae'r saethu yn Butler yn crisialu'r holl ymosod anghyfiawn a fu arno dros y blynyddoedd diwethaf.


Drannoeth y saethu a'r ddihangfa a brofodd, roedd Trump yn sôn am yr angen i bobl yr Unol Daleithiau 'ddod ynghyd fel un genedl'. Heno, pwy a ŵyr beth yw ystyr hynny iddo fo, nac ychwaith i'r Arlywydd Biden sy'n dweud peth tebyg. Yr awgrym ydi bod angen i bawb dymheru eu hiaith er mwyn lleihau tensiynau a chynyddu parch. Popeth yn dda, ar un wedd. Ac eto, gall hynny fod yn beryglus yn yr achos hwn os mai'r cyfaddawd fydd bod pobl yn gorfod bod yn dawel ynghylch troseddau ac euogfarnau Trump. Mae rhywbeth annerbyniol ac annheg am gyfaddawd sydd yn y bôn yn golygu: 'Peidiwch chi â dweud y gwir amdanaf fi, ac mi wnaf fi beidio â dweud celwydd amdanoch chi'.

Trueni a thrasiedi o'r mwyaf fyddai gweld y gwir yn ildio i gelwydd yn enw cymodi a chyd-dynnu yn yr Unol Daleithiau. Ond nid yno yn unig; ac nid yng ngwleidyddiaeth y dydd yn unig chwaith. Gall yr un peth ddigwydd yn ein plith ninnau ac yn ein hymwneud â phethau ffydd wrth i'r alwad am oddefgarwch a chytgord esgor ar ddisgwyliad i ninnau roi heibio argyhoeddiadau ac ymwadu â gwirioneddau a fu'n greiddiol i'r Ffydd Gristnogol o'r cychwyn cyntaf. Ymhlith y gwirioneddau sylfaenol hynny y mae'r hyn a gyhoeddai'r Eglwys Fore ac a goleddwyd gan Gristnogion yr oesoedd: 'Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo' (Actau 4:12). Mae'r Eglwys ar hyd y canrifoedd wedi credu'r hyn a ddywedodd Iesu Grist amdano'i hun: 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi' (Ioan 14:6).

Cyhoeddi'r gwirionedd hwn fu gwaith a braint yr Eglwys erioed. Dyna'i galwad, a dyna'i phwrpas. Ond mae'r gwirionedd hwnnw dan warchae cynyddol heddiw. Onid yw cred ac argyhoeddiad pawb mor ddilys â'i gilydd? Sut all neb honni mai ganddyn nhw y mae'r gwir? Wrth gwrs bod goddefgarwch yn mynnu ein bod yn parchu hawl eraill i anghytuno â ni ac i gredu'r hyn a fynnont. Ond yn wylaidd, yn barchus o eraill, ac yn ofn Duw, daliwn i gredu a chyhoeddi'r hyn a ddywedwyd am Iesu Grist ganddo ef ei hun a chan ei ddilynwyr.

**JOHN PRITCHARD**

# NEWID



Ydach chi'n barod am newid, wel mae newid yn 'change' yn tydi, a dyna oedd y Blaid Lafur yn ei gynnig: newid. Wel meddach chi a chymryd nad Tori o waed glas cyfan ydach chi, fe fu rheini wrth y llyw yn go hir, ac wir o gofio am eu giamocs a'u cambyhafio mewn sawl maes, byddai llawer yn dweud, rhy hir!, O bartion 'y dethol rai' adeg Caethiwed Cofid, a hynodrwydd anystywallt ac addewidion gwag Boris Johnson i Liz Truss a'i hymdrech gibddall i wneud y wlad yn fethdalwr a'r chwyddiant a'r codi llogau 'yr argyfwng costau byw' a ddaeth yn sgil hynny.

Torrwyd sawl addewid, chafwyd mo'r ysbytai rheini oedd i'w hadeiladu wrth i ni gysidro gadael yr Undeb Ewropeaidd, a dweud y gwir methiant trychinebus fu gadael Ewrop. Hyd yn oed os oeddech chi'n meddwl ei fod o'n syniad da, wireddwyd mo'r freuddwyd hyd yn oed i'r rhai mwyaf brwdfrydig. Gwnaed llanast llwyr o'r gadael ac mae busnesau'n dal i ddioddef effaith hynny a sawl cwmni oedd yn gwneud yn dda iawn yn allforio, wedi gorfod rhoi'r ffidil yn y to diolch i'r gwaith papur di-ddiwedd.

A beth am y bobl yn y cychod bach rheini, tewch a sôn! Mae nhw'n dal i ddod dros y sianel o draethau Ffrainc, ac yn dal i golli eu bywydau, er gwaetha'r bygythiad o'u pacio i Rwanda. Fu'r bygythiad yn ddim ond siarad gwag, a rwan mae'r cynllun y gwariwyd miliynau arno o dan y don, a'r broblem, os oedd problem yn parhau.

A rwan maen nhw wedi mynd, mi gollodd rhai o wynebau amlyca'r Toriaid eu seddi, dwsin os cofia i o aelodau'r Cabinet ymhlith y cant a hanner fwy neu lai a gollodd eu seddi sydd yn chwilio am swyddi. Ac er na chlywais i hyd yma fod unrhyw un wedi cael bachiad, mi fydd y mwyafrif siwr i chi mewn segur-swyddi'n fuan.

Ond, ie mae 'na ond! Be ddaeth yn eu lle, wel prin fod yn rhaid dweud i'r Blaid Lafur ennill yr etholiad gyda mwyafrif anferthol, ie llawer mwy o seddi nag oedd ganddyn nhw, ond gyda llai o bleidleisiau. Roedd dail y gwpan de wedi proffwydo'r fuddugoliaeth ers misoedd, a rwan be gawn ni ganddyn nhw tybed o dan arweiniad Keir Starmer, mwy o'r un peth?

Na faswn i ddim yn meddwl, wedi'r cyfan mae o wedi addo newid. Ond a fedr Llafur wneud gwahaniaeth, peidiwch â dal eich gwynt! Fu'r Canghellor newydd Rachel Reeves fawr o dro cyn dweud fod y sefyllfa'n waeth nag yr oedd hi wedi ei ofni. Tybed, na go brin nad oedd hi'n gwybod yn iawn mai ychydig sylltau oedd yn y gôd, ac y bydd hi'n anodd iawn 'cael amser gwell i ddyfod', ac os ydi Starmer am gadw ei air i NATO wel fe fydd llai fyth ar gyfer pethau pob dydd fel iechyd, addysg, tai ag ati.

Rwan tydi llawer o bethau felly ddim yn berthnasol yng Nghymru, beth sydd yn berthnasol yma ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ydi faint o arian, faint o'n harian ni ddaw o San Steffan i Lywodraeth Cymru. Yn amlwg mae angen edrych ar y ffordd y rhennir yr arian i Gymru ac i'r Alban, a'r cwestiwn ydi a fydd na ymateb ffafriol o Lundain i gais Caerdydd. Wel bydd siwr, tydyn nhw'n perthyn i'r un blaid! Ie tybed.

Cyn cloi rhaid sôn gair am effaith yr etholiad yng Nghymru, lle mae lliw'r map gwleidyddol wedi newid yn arw. Mwy o wyrdd, ac mae'r melyn yn ôl yn ne Powys a'r gweddill yn goch. Golchwyd y lliw glas i ebargofiant am y tro, ond beth am Nigel a Reform, ia, heb fawr ymdrech mae'n ymddangos fe wnaethon nhw yn eithriadol o dda. Yn ail mewn cymaint o seddi ac yn gyfrifol am lawer o golledion y Ceidwadwyr, ac yn rhyfedd ddigon am lwyddiant Plaid Cymru ym Môn. Oni bai am Reform glas o hyd byddai'r fam ynys, felly rhwng rwan a'r etholiad nesa, pwy ŵyr beth fydd canlyniad hyn. A beth am ein sedd ni, fe ddiflanodd yr enw Arfon heb i neb godi llais, yn sicr fu dim ymgynghori, a rwan rydan ni yn Nwyfor Meirionnydd. Mae hanner y sedd yn hen sedd sir Gaernarfon, fe ddylai'r enw adlewyrchu hynny chreda i byth. Wedi'r cyfan enw cyfleus oedd Dwyfor ddegawdau'n ôl ar gyfer llywodraeth leol ac i osgoi 'Llŷn ac Eifionydd'. Mae'n iawn fel enw ar afon, ond nid ar hanner etholaeth anferth a thraddodiad hen, felly erbyn y tro nesaf beth amdani, Arfon-Meirionnydd?

**DEI TOMOS**




Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

DYLAN GRIFFITH

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

## CAEATHRO

**Capel**

Ni fydd unrhyw oedfaon yn cael eu cynnal yng Nghaeathro dros fis Awst yn ystod toriad yr Haf – cyfle i fynychu gwasanaethau mewn eglwysi cyfagos efallai. Bydd y gwasanaethau yn ail-gychwyn ym mis Medi, felly cadwch lygad ar yr Hysbysfwrdd tu allan i Ganolfan y Capel am y manylion priodol maes o law.

**Menter Ynni Cymunedol Gwyrfai Gwyrdd**

Diolch i griw Gwyrfai Gwyrdd fu draw yng Nghanolfan y Capel nos Fercher y 10fed o Orffennaf i roi cyflwyniad am y fenter gymundeol newydd sydd ar y gweill. Mae'r mudiad wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o ddefnyddio adnoddau lleol i gynhyrchu egni i'n cymunedau. Mae rhai adnoddau eisoes mewn lle, i gynnwys hydro, a mae bwriad hefyd i gyflwyno paneli solar i gynhyrchu egni yn defnyddio golau'r haul. Y gobaith ydi y bydd costau trydan aelodau mudiad Gwyrfai Gwyrdd yn cael eu gostwng hyd at 25%, law yn llaw â sicrhau fod yr ardal yn datblygu i fod yn un net sero o fewn y ddegawd nesaf. Am fwy o wybodaeth, cadwch lygad ar wefannau cymdeithasol neu cysylltwch â Dafydd Davies ar 07841 764044 neu dafydd.davies@gwyrfaigwyrdd.cymru.

**Caernarfon Lân**

Diolch i griw mudiad Caernarfon Lân ddaeth draw i Ganolfan y Capel nos Fawrth y 9fed o Orffennaf. Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â bwriad y cwmni Jones Brothers (Civil Engineering) Company Ltd a'u is-gwmni, Seiont Ltd, i ddatblygu hen safle gwaith brics Seiont. Mae cais wedi'i gyflwyno ganddynt am ganiatâd i osod "ffatri brig" ("peaking plant") wedi ei bweru gan 10 injan nwy fyddai'n cynhyrchu 20MW o drydan. Mae hefyd gais i osod ffatri malu concrit ar y safle.

Mae pryderon gwirioneddol gan lawer o drigolion lleol, gan gynnwys yr effaith ar draffig – mae Caernarfon Lân yn amcangyfrif y bydd hyd at 120 o loriau HGV y dydd yn teithio i ac o'r safle, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn teithio drwy bentref Caeathro i'r fynedfa arfaethedig ger Plas Treflan. Yn ogystal, mae llawer yn poeni am yr effaith y bydd y datblygiad yn ei gael ar iechyd a diogelwch trigolion yr ardal yn sgil y cynnydd mewn llygredd aer a llygredd sŵn, ynghyd â phryderon am yr effaith amgylcheddol ar fywyd gwyllt.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar wefan Caernarfon Lân drwy ddilyn y linc canlynol – https://www.caernarfonlan.cymru. Gellir hefyd ddarllen manylion llawn y ceisiau, ynghyd â lleisio eich barn arnynt, ar wefannau Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

## CWM-Y-GLO

Yn dawel yng nghwmni ei theulu, ar y 1af o Fai, bu farw Hilda Wynn Orritt, Moranedd, Cwm-y-Glo. Gwraig y diweddar Les, mam arbennig Judith, Nigel a Cynthia a'u priod, Glyn, Judith a Paul. Nain gariadus ac annwyl i Daniel a Dafydd a hen nain Ben ac Efi. Chwaer i Ffred a Buddyg a'i brawd a chwiorydd ymadawedig a ffrind triw i lawer. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis a rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Nant Peris ynghyd â llwch dad, Les. Gwasanaethpwyd yr angladd gan yr Hybarch R. Townsend, Archddiacon Meirionnydd a'r organydd oedd Glyn, ei mab-yng-nghyfraith.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn ystod y cyfnod anodd hwn, derbyniwyd geiriau a negeseuon caredig iawn a fu'n gysur mawr i ni, ei phlant. Dymunwn hefyd ddiolch i bawb a gyfrannodd yn garedig er cof am mam. Mae'r arian wedi ei dderbyn yn ddiolchgar gan "Heneiddio'n Dda cangen Gwynedd a Môn" Age Cymru, Canolfan Bontnewydd.

Eich byw yn atgof melys – eich colli yn ofid dwys.

# Huw Post a'r 'Plismon.'

Un noson tua canol y 1990au oedd hi, a minnau'n ymlacio yn Nhafarn y Newbrough, Bontnewydd pan gerddodd plismon mewn iwnifform i mewn i'r bar a gofyn am beint o chwerw. Nid plismon go iawn oedd hwn, ond un wedi cael rhan fel 'ecstra' ar gyfer rhyw ddrama neu gilydd oedd i'w dangos yn ddiweddarach ar S4C.

Roeddwn yn adnabod hwn o ran ei weld, ac yn ystod sgwrs fach yn ei gwmni, dywedodd ei fod yn aros i'r criw ffilmio gyrraedd ar gyfer beth roedd ef yn ei alw yn '*night shoot*', ac yn y cyfamser, "Cael ryw beintyn bach i basio'r amsar". Aeth y 'plismon' i eistedd wrth y ffenest a rhoi ei helmed ar y bwrdd, ac yna tanio sigaret a dechrau darllen un o'r papurau newydd oedd ar y bwrdd.

Ymhen ychydig pwy ddaeth drwodd i'r bar ond Huw Post, un o gymeriadau nodedig y pentref ac o weld y 'plismon' yn y gornel yn mwynhau ei beint a'i smôc, meddai Huw yn fy nghlust, "Yli myn uffar! Plisman yn yfad ar diwti!" Minnau'n actio'n dwp a pheidio cymryd arnaf. "Wel drycha bendith tad! Tydio'n fan'cw yn ista ar ei dîn yn braf ag yn malio diawl o ddim pwy sy'n weld o! Tydi peth fel hyn ddim i fod siŵr iawn, lladron yn torri mewn i'r tai a hwn yn fanma'n slotian!"

Roedd Huw yn codi stêm rŵan.

"Wst'i be was? Tasa'r Insbector polîs 'na tua'r dre yn gwbod bod hwn yn fanma yn hel diod mi fasa'n ddrwg ar y diawl arno fo sdi, a mi fasa'n saff o gael cic owt o'r Polîs Ffors! Dw'i jest a deud na faswn i'n ffônio'r Sarjant yn y Polîs steshion i reportio'r diawl, edrach be fasa hwnnw'n 'neud ar ei gownt o!"

Ar hyn clywyd sŵn a chynnwrf mawr yn dod o'r tu allan â nifer o lampau llachar yn goleuo. Roedd y criw ffilmio wedi cyrraedd, â'r 'plismon' o ganlyniad yn codi o'i sedd ac yn mynd allan i ymuno â hwy. Meddai Huw Post wrth edrych drwy'r ffenest. "Yli! ma'r uffar wedi mynd i ganol rhein i holi a bysnesu â ogla diod yn drewi ar ei wynt o!"

Er i mi geisio esbonio i Huw mai nid plismon go iawn oedd y dyn, roedd yntau mor benderfynol ac yn mynnu, "Naci'n tad, plisman go iawn ydio dallta! Y cythral digywilydd yn dŵad i fan hyn i botian ar y slei a ryw hen dacla yn dwyn a malu petha ar hyd y lle 'ma! Y ffashwn ddigywilydd-dra myn diawl!"

Mois.

## CEUNANT

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda theulu a ffrindiau Robert Iorwerth (Robin) Jones o Hafod Owen, Ceunant a fu farw yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion atoch i gyd.

**Ymddeol**

Pob dymuniad da i Emyr Williams, Pant Hyfryd, Ceunant fydd yn ymddeol yr haf yma o'i swydd fel Pennaeth Ysgol David Hughes, Porthaethwy.


E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Hefin Jones Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com

# Ar ben arall i'r lein

Wel dyma ni gyda llywodraeth newydd, diwedd ar yr wythnosau o ganfasio ac addewidion. Ond wedi'r cwbwl does ond un addewid sy'n tynnu fy sylw ac o bosib pob pysgotwr arall drwy'r fro, hefyd y rhai sy'n defnyddio ein dyfroedd a sydd yn dechrau o'r diwedd cwyno am ei gyflwr.

Faint o'r cyhoedd sy'n gofyn y cwestiwn pam fod peth fel hyn yn bod, yr ateb syml wrth gwrs yw'r tŵf yn y boblogaeth a'r methiant gan y cwmniau dŵr a'r llywodraeth a'n cynghorau i sicrhau fod isadeiledd systemau trin gwastraff yn cael eu haddasu i ymdopi â'r twf mewn adeiladu a phoblogaeth. 'Rwan 'ta os rydym yn credu fod y sefyllfa fel ag y mae yn annerbyniol, mae yn sicr o waethygu oherwydd clywais araith gan y llywodraeth fod eisiau gwneud i ffwrdd â llawer o reolau yn ymwneud â chynllunio a bod eisiau adeiladu 300,000 o aneddau newydd. Ni chlywais ddim am os bydd yr isadeiledd carthffosol yn cael ei adnewyddu i ymdrin â'r gwastraff ychwanegol yma. 'Rwy'n gadael iddi yn y fan yma a gadael i chwi feddwl sut gyflwr fydd ar ein hafonydd a llynnoedd mewn ychydig o flynyddoedd.

Newydd arall a fydd yn cael effaith ar bysgota yw fod gan y llywodraeth newydd y bwriad i gyflwyno deddf fydd yn dod â gwaharddiad llwyr ar hela, er bod hyn ddim wedi gweld golau dydd yn eu maniffesto oherwydd buasai yn cael ei weld fel rhyfel ddosbarthiadol. Sgwn i felly a fydd awgrymiadau yn dod yn y pen draw i wahardd pysgota? Peidiwch â dal eich gwynt ar beth fel hyn.

A dyna ddiwedd ar y sioe boliticaidd, a throi am ryw ychydig at y pysgota. Sut mae pethau yn mynd? Ar yr afonydd, yr unig ateb i hyn yw, yn siomedig dros ben, does dim byd yn digwydd, dim adroddiad o eog na gwyniaid yn dod i'r enwair, er bod adroddiadau yn dod i law o botsio ofnadwy yn y Fenai ac ar draws afonydd led led y sir. Eto mae rhai sydd mor ddigywilydd ac yn rhoi eu lluniau gyda'u eogiaid anghyfreithlon ar *facebook.* Hyd yn hyn ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yw ei bod yn amhosib gwneud dim am hyn. Y cwestiwn sy'n cael ei ofyn gan bysgotwyr cyfreithiol trwyddedig yw – Os yw deddfau Cymru yn dweud na chaiff neb gadw eog at y badell, paham mae peth fel hyn yn cael ei ganiatau? Oes gan rywun ateb yn rhywle tybed?

O'r holl ddyfroedd Llyn y Dywarchen yw'r seren unwaith eto, mae'r lle yn 'sgota'n ardderchog ac efallai dyma pam mae'r criwiau yn anwybyddu briwsion yr afonydd ac yn anelu at Rhyd Ddu. Eto yn y fan yma mae problemau wedi bod gyda physgota anghyfreithlon a bygythiadau yn cael eu anelu at aelodau sy'n trio eu gorau i gael trefn. Ond gyda diolch i'r swyddog cyswllt gyda'r gymdeithas sef Michelle Allsup o Heddlu Gogledd Cymru a'r Tîm Troseddu Cefn Gwlad mae trefn unwaith eto o gwmpas y lle. Diolch Michelle.





Tydw i chwaith heb glywed fod torgoch wedi dod i rwyd, ond gobeithio y byddaf wedi rhoi tro arni erbyn y rhifyn nesaf, gan fy mod ar dân eisiau gwlychu nifer o abwydi troell sydd wedi eu hanfon i mi gan Bill Gibson, sef pysgotwr torgoch brwd ar Lyn Coniston, Ardal y Llynnoedd. Yndw 'dwi wedi bod yn ffodus dros y blynyddoedd drwy'r torgoch o ddod i adnabod tipyn o sgotwrs o'r un diddordeb o gwmpas yr hen le 'ma. Yn anffodus mae ein niferoedd yn mynd yn llai a llai pob blwyddyn. Dyma'r rheswm y penderfynais wneud llyfryn bach o hanes torgochiaid Llyn Padarn, er mwyn cael cofnod o 'sgota'r pysgodyn hyfryd yma. Yn anffodus mewn un ffordd, yn Saesneg yn unig mae ar y funud, gan mod i eisiau anfon copiau i'r criw dros y ffin. Mae ychydig o gopiau yma os oes rhywun eisiau un. Wyddoch chi be, mae eisiau eistedd i lawr i roi hyn i gyd ar gof y dyfodol.



Troellwyr



Bill Gibson a brithyll 10 pwys o Coniston



Llond padell o dorgoch mis Hydref Llyn Coniston

Mae nifer wedi cyfeirio at y grug sy'n brysur ddiflannu o Gefn Du a'r Elidir Fach, wel gan ein bod ar bethau sy'n diflannu, dyma un arall i chwi. 'Rwyf i weld yn edrych fwy fwy dros fy ysgwydd a meddwl am yr atgofion o'r pysgota ardderchog a'r cwmpeini 'rwyf wedi ei fwynhau dros y blynyddoedd yn y byd genweiriol. Mae hyn yn fy nhynnu yn fwyfwy at fy nechrau yn y byd 'sgota 'ma. Yn lle? Wel Afon Gorlan, Deiniolen wrth gwrs, ble 'roedd criw ohonom yn mynd ar Bont Gorlan i weld y canoedd o sîli dons *(minnows)* bach, wedyn dal rhyw ychydig a'i sgota lawr cyn belled â Phont Dywyll.

Felly roedd rhywun yn datblygu gyda'r sgota, a lledu ein gorwelion am Lyn Padarn a Penllyn, a chael defnydd ar gwch, 'roedd sgota'r *minnow* bach yn dod yn angenrheidiol ar ddechrau'r tymor. Felly ar Bont Penllyn i edrych os oedd y lluoedd o'r *minnows* wedi ymddangos at ganol mis Ebrill, y rhai cynnar oedd y brithyll yn awchus amdanynt, ac fel oedd yr wythnosau'n mynd heibio, byddai'r sgodyn bach yma'n dechrau newid lliw a dim mor ddeniadol. Ond wyddoch chwi be, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd wedi lleihau ac eleni ni welais i'r un o gwmpas y lle. Ble mae'r rhain wedi mynd tybed? Hefyd mae'r adar bwyta pysgod wedi diflanu o Benllyn, 'sgwn i os ydynt wedi bwyta'r cwbl ac wedi newid eu stondin am borfeydd gwelltog.

Wel dyna ni tan fis Medi, gobeithio'n wir bydd y 'sgota wedi dod at ei hun, ond beth bynnag bydd digon i drafod gyda'r nofwyr yn y chwyn ar Padarn. Dim lle i'r cwbl mis yma mae gennyf ofn.

**Huw Price Hughes**

# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod 21ain Mai, 2024

**1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

**2. Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod 16eg Ebrill fel rhai cywir.**

**3.Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.**
Adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers y 4ydd o Ebrill, dim ond fod adroddiad yr archwiliwr mewnol wedi ei dderbyn.
**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**4. Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**(Copiau i'w cael gan y Clerc)

**5. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau.**
Adroddwyd nad oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar ond ymysg y gweithgareddau sydd yn symud ymlaen ydi:
- fod y gwaith o adnewyddu'r ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn wedi ei wneud.
- fod y gwaith ar y parc sglefrio yng Nghwm y Glo wedi cychwyn.
- fod cwyn wedi dderbyn am Glymog Siapan yng Nghwm y Glo.
- fod gwaith wedi cychwyn ar wneud rheolau i'r caeau chwarae.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**6. Derbynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant.**
Adroddwyd ein bod wedi cael ymweliad safle oddi wrth swyddog cymuned Fairshare. Pwrpas yr ymweliad oedd i sicrhau fod y cynllun yn gweithredu a gofynion Fairshare ac roeddynt yn hapus fod popeth yn rhedeg yn iawn.
Adroddwyd fod y niferoedd sydd yn derbyn pecynnau bwyd yn eithaf sefydlog.
Nodwyd fod angen ceisio am grantiau o ffynonellau eraill ar gyfer ychwanegu at gyflenwad a dderbynnir gan Fairshare oherwydd fod dim ond digon o gyllideb tan ddiwedd Gorffennaf i barhau gyda darparu wyau a bara.
Adroddwyd ein bod wedi ymaelodi a Fairshare hyd ddiwedd Mawrth 2025.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**7. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Fynwent.**
Adroddwyd ar y canlynol:
-Mae gwaith sydd angen ei wneud yn y fynwent wedi ei gydnabod yn ystod cyfarfod safle.
- Arwyddion newydd ynglŷn â pharcio ar y glaswellt mewn tywydd gwlyb.
- Gweithredu ar fesurau ail-gylchu newydd Llywodraeth Cymru gyda'r posibilrwydd o dynnu biniau o'r fynwent yn llwyr os nad yw'r drefn yn gweithio.
- Trwsio ffens wyrdd wrth ochr blociau E ac F.
- Cadw golwg ar y wal gerrig wrth ochr y lon sydd yn arwain at y fynwent, hyn yn dilyn adroddiad fod y gwartheg yn y cae yn rhoi pwysau ar y wal.
- Monitro gwaith iechyd a diogelwch cofebion.
- Trwy gyfryngau gwahanol, hysbysebu gwaith asesiadau risg fydd yn digwydd yn y fynwent yn ystod mis Mehefin.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**8. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.**
Adroddwyd y canlynol:
-Asesiadau risg gweithio yn unigol ac unigolion bygythiol/treisiol/blinderus eisoes wedi eu cwblhau ac wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Pob pwyllgor yn cael copi i'w drafod.
-Asesiadau risg "defnyddio cerbydau ar fusnes y cyngor" wedi ei thrafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch 8.5.24. Bydd rhaid i aelodau lenwi ffurflen yn datgan fod ganddynt yr yswiriant priodol i wneud hyn.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**9. Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed Tŷ'r Ysgol Llanrug (Cyng Rhys Parry)**
Adroddwyd:
-Fod angen i'r ysgol ddiweddaru cynllun busnes.
-Wedi derbyn ymateb oddi wrth yr Adran Gynllunio.
-Byddai defnydd o'r tŷ yn cyfoethogi addysg yn yr ysgol.
-Yr ysgol yn teimlo eu bod yn y canol rhwng yr Adran Eiddo a'r Adran Addysg.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**10. Ystyried gosod diffibriliwr yn ardal Pontrug.**
Bu galw yn ddiweddar am ddefnydd o ddiffibriliwr yn ardal Pontrug, a bu rhaid defnyddio'r offer sydd yn Llanrug. Cafwyd trafodaeth yn y cyngor am y buddiant o leoli un ym Mhontrug.
ER GWYBODAETH DYMA'R LLEOLIADAU PRESENNOL:
MAES CARAFANAU TY'N Y COED( YN Y TŶ GOLCHI); WAL SIOP PREMIER LLANRUG; YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL; Y SEFYDLIAD COFFA; Y GLYNTWROG; Y FRICSAN CWM Y GLO; LONDON GARAGE CWM Y GLO; a BRYN Y MAEN, CEUNANT. MAE'R RHAIN I GYD WEDI EU GOSOD YN ALLANOL AC AR GAEL 24 AWR Y DYDD.
**Penderfynwyd**: Cynnal cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i benderfynu ar leoliad addas ac yna symud ymlaen i osod un yno.

**11. Cais oddi wrth Gyngor Tref Nefyn.**
Mae Cyngor Tref Nefyn wedi ysgrifennu at Dyfrig Siencyn yn gwrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan, ac wedi gofyn am ein cefnogaeth drwy anfon llythyr i Dyfrig Siencyn i wrthwynebu'r bwriad.
**Penderfynwyd**: Peidio gwneud dim a chais Cyngor Tref Nefyn oherwydd yn y cyfamser mae ymateb wedi dod oddi wrth Gyngor Gwynedd.

**12. Unrhyw adborth/ datblygiad o'r newyddlen.**
Adroddwyd fod pob eiddo oddi fewn i'r ardal wedi derbyn newyddlen am waith y Cyngor. Mae darparu newyddlen yn ofyniad statudol.
Nid oedd yr aelodau wedi derbyn llawer o ymateb i'r newyddlen, dim ond fod rhai wedi ymateb gan ddweud nad oeddynt yn ymwybodol o'r holl waith roedd y cyngor yn ei wneud.
**Penderfynwyd**: yn dilyn cais yn y newyddlen am gynghorwyr ychwanegol a gwirfoddolwyr ar gyfer y cynllun bwyd, penderfynwyd hysbysu hyn eto ar 'Facebook' ac ar wefan y Cyngor.

**13. Ceisiadau Cynllunio.**
a) Rhif y Cais: C24/0321/23/DT.
Estyniad un llawr i ochr yr eiddo,Gwelfryn, Llanrug.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais: C24/0343/23/LL.
Dymchwel lolfa haul ac adeiladu ystafell ardd newydd ar yr un safle. Tan y Cae, Ceunant.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.
c)Rhif y Cais: C21/0564/23/LL.
Cais ar gyfer codi tair uned breswyl fforddiadwy(dau dŷ a byngalo). Tir ger Glyntwrog
Inn, Llanrug.
**Penderfyniad**: Ansicrwydd am y cais- beth sydd wedi newid?Dim yn bosib rhoi barn ar hyn o bryd. Cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi.
ch) Rhif y Cais: C24/0285/23/LL.
Codi annedd a datblygiad cysylltiedig. Cae Glas, Ceunant.
**Penderfyniad**: Gwrthwynebu ar y sail fod y datblygiad yn rhy fawr ac nad ydi'r ffordd at yr adeilad yn addas.




## Y Gornel Ddarllen


Mae wedi bod yn fis prysur, a nifer o ddigwyddiadau yn y siop ac yn lleol. Roedd hi'n braf bod yn rhan o noson gyhoeddi Cysgod yn y Cof yn Pant Du gyda Bob Morris, ei deulu, cefnogwyr a nifer o'r gymuned leol yn sicrhau bod y lle dan ei sang.


Pleser mawr oedd croesawu Carwyn Graves yma i'r ardd i drafod ei gyfrol TIR - Story of the Welsh Landscape gyda Gerallt Pennant ym mis Mehefin.
Mae darllen y llyfr hwn wedi agor fy llygaid i edrych ar y tirlun o nghwmpas mewn ffordd wahanol, ac mae'n llyfr amserol a phwysig i bawb sydd â diddordeb mewn gwarchod ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwmpas.

Roedd hi'n hyfryd croesawu M Wynn Thomas a Siân James i gynnal digwyddiad pnawn Sadwrn, lle'r oedd Wynn yn siarad am emynau Cymraeg a Siân yn eu perfformio'n gelfydd a swynol iawn.
Trît yn wir!

Dyma i chi'r 10 llyfr ddaeth i frig y rhestr ym Mhalas Print ar gyfer mis Mehefin: Mwynhewch y darllen!

1. Y Cysgod yn y Cof; Bob Morris
2. Camu; Iola Ynyr
3. Tir - Story of the Welsh Landscape ; Carwyn Graves
4. Wales - 100 Records; Huw Stephens
5. Gwrthryfela - Cerdd y Gadair, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn; Lois Medi Williams
6. Coch - Stori Fer y Goron, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn; Tegwen Bruce-Deans
7. Llyfrau Hanes Byw: Cerdded Lerpwl y Cymry; Gari Wyn
8. Pen-Blwydd Hapus; Ffion Emlyn
9. Poems from the Soul; M.Wynn Thomas
10. What does Israel Fear from Palestine?; Raja Shehadeh










# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o gofnodion Cyfarfod 4ydd Mehefin 2024

**Cofnodion Cyfarfod 7fed o Fai 2024**
Ar wahân i gywiro Cysgodfa Dinorwig yn hytrach na Brynrefail, Cafwyd y Cofnodion yn gywir.
**Materion o'r cofnodion**
**Eisteddfod Yr Urdd:**
Llongyfarchiadau I bawb o'r ardal ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Mae'n braf gweld cymaint o dalent yn lleol nid yn unig ar lwyfan, ond ar waith celf a chrefft ac ysgrifenedig.
**Ffordd O Fethel i Gelli Gyffwrdd**:
Mae arolygwr ffyrdd o Gyngor Gwynedd yn mynd i archwilio'r lleoliad a chodi archeb ar gyfer gwneud y Gwaith i geisio atal y llifogydd a welwyd yno yn ddiweddar.
**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Hysbysiad Archwilio:**
Rhannwyd yr hysbysiad archwilio er mwyn ei roi i fyny ar hysbysfyrddau'r Cyngor yn y pentrefi, fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o ymchwiliad am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2024, a bod ganddynt gyfle i weld y cyfrifon.
**Cynllunio**
**Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:**
C24/0405/18/DT - Gorffwysfa, Brynrefail, Caernarfon. Gwynedd LL55 3NR
*Dymchwel estyniad to fflat presennol a chodi estyniad cefn deulawr, ynghyd a Gwaith tirlunio yn y cefn a chodi wal.*
*C24/0385/18/AC - Rhes Fictoria, Stryd Fawr, Deiniolen*
*Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio presennol a chaniatáu tair blynedd ar gyfer cymeradwyo materion a godwyd yn A1*
**Llwybrau**
**Llwybr Troed Rhes Uchaf at Lon Capel Rhiwlas**:
Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn datgan eu bod wedi cytuno i lenwi'r twll mawr gyda tharmac. Ond mae Cyngor Gwynedd yn gofyn a yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu'r Gwaith ar y llwybr yma ac yna byddai Cyngor Gwynedd yn ei fabwysiadu. Wel nid yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu hyn o gwbl, gan nad ydym yn sicr pwy sydd yn berchen y llwybr neu ddarn o dir.
**Llwybr Rhif 122 Giât Drydan:**
Derbyniwyd cwyn eto gan y cyhoedd ynglŷn â'r giât drydan sydd ar y llwybr yma. Y newyddion diwethaf a dderbyniwyd oedd bod trafodaethau yn gorfod cael eu gohirio am y tro, a hynny yn ôl yn fis Ionawr eleni. Bydd y clerc yn cysylltu gyda'r swyddog sydd wedi delio gyda'r mater yn y gorffennol i weld beth ydi'r diweddaraf.
**O Gwmpas y Bwrdd**
Deiseb rhag newid enwau Cymreig - Gyda'r sylw o gymaint o enwau hanesyddol ar lefydd Cymreig wedi eu newid wedi dod i'r wyneb yn ddiweddar, mae deiseb yn ardal Deiniolen wedi ei sefydlu i gael cefnogaeth i atal hyn ddigwydd yn y dyfodol. Mae 'r ddeiseb i'w gael yn y siop leol, ac erfynnir ar bawb i geisio ei arwyddo a chefnogi'r ymgais yma i sicrhau dyfodol o enwau cywir Cymreig I hanes yr ardal.
**Ceisiadau am Roddion Ariannol**
Mae angen i ffurflenni am geisiadau eleni fod yn llaw'r clerc erbyn yr 20fed o Fedi. Mae'r ffurflen i gael ar Wefan Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, https://cyngorllanddeiniolen.cymru/
neu trwy gysylltu â'r clerc: Eleri Bean: Ffôn 871757 ebost: clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

**I gyfarch a llongyfarch Phyllis Elis, o gyflawni 50 mlynedd fel Cynghorydd Cymuned Llanddeiniolen**

Rhoddodd hir oes i'w 'gwreiddiau', - un o blaid
yr hen blwyf o'r dechrau;
yn lais dros y mud leisiau,
y pren ir, brid sy'n prinhau.

**Richard Lloyd Jones**



# Garddio

**AWST**

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i dorri beth sydd wedi darfod blodeuo, yn enwedig os ydyn nhw wedi mynd i edrach yn flêr. Gallwch fynd ati i rannu'r gelleseg (*iris*) ar ôl iddynt orffen blodeuo. Cofiwch does dim angen gwneud hyn bob blwyddyn, bydd bob rhyw 3 i 4 mlynedd yn iawn, ond mae'n ffordd dda i roi bywyd newydd i'r hen blanhigion. Rwy'n pregethu'n feunyddiol bod angen torri pennau blodau er mwyn ymestyn y cyfnod blodeuo e.e. trilliw (*pansy), nemesia*, mynawyd y bugail (*geranium*) a *petunia*. Gallwch adael rhai pennau hada hardd, i greu strwythur diddorol i'r ardd, e.e. y pabi dwyreiniol (*oriental poppies*) neu'r *allium* ac os oes hadau ar ôl mewn rhai blodau e.e. blodau'r haul, mi fydd yr adar bach wrth eu boddau fel bydd y tywydd yn oeri.

Rwyf eisoes wedi torri rhai coesau o'r 'ceiniogau' *lunaria (honesty*) a'u hongian i sychu'n barod i'w defnyddio mewn trefniannau blodau sych. Un peth i'w gofio, os ydach chi am flodau i'w sychu at y gaeaf, gall y gwynt a'r glaw eu difetha i'r diben hwn. Felly torrwch yr *allium* os ydach chi am eu defnyddio i addurno'r tŷ. Gallwch hefyd sychu yr *helichrysum a statice* i'r un diben. Os am oglau da beth am gadw pennau (a choesau) lafant gan gofio torri'r coesau, heb dorri'r hen bren, i ymestyn bywyd y llwyni a rhag iddynt dyfu'n rhy heglog.

Mae'n syniad hefyd i gymryd toriadau o blanhigion fel y lafant a'r *penstemon* (dwi eisoes wedi cymryd toriadau lled-aeddfed (*semi-ripe*) o hen ŵr (*clematis)* a'r *erysmium* gan fod yr olaf wedi tyfu'n goesog braidd yn y blynyddoedd diweddar. Rwyf wedi cynnal math o arbrawf efo toriadau, ar ôl gwylio fideo ar *YouTub*e o sut i fynd ati. Dydy o ddim yn hollol wyddonol ond yn ddiddorol i mi. Rhoddais '*ge*l' gwreiddio ar un set o doriadau a rhoi'r lleill yn syth mewn compost graeanog (yr un fath o gompost a phot a'r un faint o doriadau ym mhob un - i wneud prawf tecach). Caf weld ymhen rhyw 3 - 4 wythnos os oes gwahaniaeth, neu os ydy unrhyw un ohonynt wedi gwreiddio. Does dim garanti na fydd y tywydd oer a gwyllt y gaeaf yn lladd llawer o blanhigion. Dyma yswiriant felly, rhag gorfod prynu o'r newydd. Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gymryd toriadau fel hyn ym mis Awst.

Os bydd mis Awst yn boeth, yn wahanol y misoedd blaenorol, cofiwch barhau i ddyfrio a bwydo'r blodau yn enwedig y basgedi crog a'r potiau. Os ydy hi'n dal i fwrw cofiwch wagio'r soseri/cynwysyddion o dan y potiau gan nad ydy rhai planhigion yn hoffi bod efo traed gwlyb. Erbyn meddwl dydw innau ddim yn rhy hoff o chwaith!

**Yn yr ardd lysiau**

Dylai'r tomatos fod yn ddigon tal bellach, felly torrwch y blaen dyfiant, er mwyn cyfeirio egni i'r ffrwyth a gwella'ch siawns am gnwd da o domatos blasus. Os ydach chi'n tyfu tomatos tu allan mi fydd hyn hefyd yn eu diogelu rhag cael eu chwalu gan y gwynt. Tynnwch y lladron i gadw'ch planhigion yn gryf. Os ydach chi'n sylwi bod dail eich tomatos yn melynu rhwng y gwythiennau (ac mae hyn yn wir hefyd ar gyfer rhosod a'r *rhododendron* yn yr ardd) efallai bod diffyg magnesiwm arnynt. Ffordd rad a rhwydd i'w sortio yw rhoi 20g o E*psom salts* mewn litr o ddŵr, ychwanegu ychydig ddiferion o sebon meddal i'r gymysgedd a'i ddefnyddio i chwistrellu'r dail. Gallwch hefyd drin y pridd o gwmpas y gwreiddiau yn yr un modd. Fel arall cofiwch ddyfrio gyda gwrtaith hylifol yn gyson. Bydd hefyd angen bwydo'r pupurau, tsilis a phlanhigion wy (*aubergines*) bob wythnos hefyd. Os ydach chi am arbed arian a lleihau'ch defnydd o gemegion mae'r uchod yn un ffordd dda o wneud hynny. Chwyn? Os oes dŵr berwedig ar ôl yn y tegell ar ôl gwneud panad, tywalltwch o dros y chwyn i'w lladd. Gallwch ychwanegu halen ato i'w wneud yn fwy effeithiol ond gwnewch yn sir nad ydy'n sbrencian ar blanhigion rydach am eu cadw. Pwyll bia hi.

Gwrtaith arall, rhad, heb gemegion yw danadl poethion! Roedd Meinir ar 'Garddio a Mwy' yn argymell stwnsio'r dail ac yna eu trochi mewn dŵr, rhoi caead arno a'i adael am ychydig wythnosau, cyn ei hidlo a defnyddio'r hylif i wrteithio'ch planhigion. Dylai cwpanaid o'r trwyth yn eich can dŵr fod yn ddigon. Gallwch ddefnyddio tafod yr ych (*borage*) yn lle'r danadl poethion. Maent wedi hadu ymhobman acw, ac yn arbed gorfod gwisgo menig i'w casglu. Pa bynnag un fyddwch yn ei ddefnyddio cewch wrtaith llawn nitrogen, am ddim! Dwi'n hoffi bargen!

Prynwch y compost di-fawn gorau gallwch ei fforddio (pryn sâl pryn eilwaith fyddai mam yn deud ers talwm. Bydd angen dyfrio ychydig yn aml, ond dydy hi ddim yn hawdd gweld os yw mawn o'r math yma angen ei ddyfrio ai peidio. Gall edrych yn sych ar yr wyneb ond bydd yn wlyb ymhellach i lawr. Gwthiwch eich bys i'r compost i weld neu fel arall codwch y cynwysyddion i weld pa mor drwm neu ysgafn ydynt. Fel arfer mae digon o faeth mewn compost newydd am tua 4 wythnos, bydd angen bwydo ar ôl hynny.



Tafod yr ych

I gario mlaen a'r thema o ddefnyddio pethau naturiol yn hytrach na chemegau, beth am ddefnyddio pethau o'r ardd i wella anhwylderau? I wella peswch llenwch bot jam efo haenau o siwgr, teim wedi ei falu'n fan a nionyn. Gadewch iddo sefyll dros nos yna hidlwch o i greu *syrup* effeithiol. I leihau hyd anwyd, mudferwch aeron yr ysgawen gyda'ch hoff sbeisys. Hidlwch nhw ac yna ychwanegwch 100g o siwgr i bob 100ml o hylif. Mud-ferwch yr hylif cyn ei dywallt i boteli wedi eu diheintio. Cymrwch lond llwy fwrdd yn ol y gofyn.

Defnyddiwch a mwynhewch ffrwyth a llysiau eich llafur! Bwytwch bethau pan maent yn feddal a blasus a rhowch unrhyw beth na allwch ei fwyta ar y funud yn y rhewgell neu gallwch sychu perlysiau megis saets, teim ac oregano. Bydd y garlleg hefyd yn barod i'w godi a'i sychu, gan gofio cadw digon i'w hail-blannu at flwyddyn nesaf.

Er gwaetha'r tywydd mae rhai pethau'n ffynnu ac erbyn mis Awst, cyn i mi hyd yn oed ofyn, bydd pob aelod o'r teulu yn dweud, 'Na dydw i ddim isio ciwcymbr na letys, diolch!'



Garlleg

Dwi wedi tyfu ffa dringo byr eleni - mae yna flodau, felly croesi bysedd y bydd yna rywfaint o ffa erbyn mis Awst a Medi. Ond digon o waith bydd yna ddigon i'w rhannu.



Ffa

Tila iawn yw'r moron, betys coch a'r pannas, er mod i wedi hau sawl gwaith, does nemor ddim wedi tyfu, dwi'n amau'n gryf ei bod hi'n rhy oer…

**MEDI**

**Yn yr ardd flodau**

Os ydy hi'n sych daliwch ati i ddyfrio a bwydo blodau'r ardd, yn enwedig y rhai mewn basgedi a photiau.

Tân dani i blannu bylbiau i sicrhau sioe dda o amrywiol liwiau yn y gwanwyn. Os ydach chi'n brin o le i'w plannu, torrwch unrhyw beth sydd mwy neu lai wedi darfod blodeuo yn y borderi, ond sy'n dwyn tir e.e. mynawyd y bugail (*geranium*) a mintys y gath (*nepeta*) ac yna taflwch unrhyw flodau blwyddol (*annuals*) i'r domen gompost. Dwi'n gwybod mod i angen plannu cennin pedr bach eleni, gan fod rhai wedi diflannu llynedd. Maent yn goroesi'n well na'r rhai coesau hirion, yn nhywydd gwyllt a gwyntog y topiau yma. Mae digon o ddewis, megis *hyacinth*, mwscari, crocws neu gennin pedr tal fel y mynnwch chi. Cofiwch fodd bynnag os ydach chi'n plannu bylbiau, bydd eu dail yn gorfod aros am rai wythnosau ar ol iddynt flodeuo, sy'n ei gwneud yn anodd i blannu pethau eraill o'u cwmpas.

Tra dwi'n sôn am fylbiau, dyma'r adeg hefyd i fynd ati i blannu bylbiau er mwyn cael blodau yn y tŷ dros gyfnod y Nadolig (sori - braidd yn fuan dwi'n gwybod!). Defnyddiwch gompost bylbiau arbennig ac yna cadwch yr hyn blannwyd mewn lle oer a thywyll. Cofiwch amdanyn nhw bob hyn a hyn a'u dyfrio fel bo'r angen. Croesi bysedd ac mi fyddant yn barod erbyn y Nadolig yn eich cartref neu fel anrhegion.

**Yn yr ardd lysiau**

Dyma un o'r amseroedd prysuraf o'r flwyddyn - cynaeafu a bwyta a mwynhau ffrwyth eich llafur.

Gadewch wreiddiau'r pys a ffa yn y ddaear ar ôl casglu'r codau, maent yn rhoi *nitrogen* i'r pridd.

**Cyffredinol**

Taflwch unrhyw ffrwythau/llysiau sydd wedi pydru.

Beth bynnag wnewch chi peidiwch â dyfrio yn hwyr yn y dydd yn eich tŷ gwydr. Dyfriwch yn y bore rhag hyrwyddo llwydni neu *botrytis, s*y'n hoffi nosweithiau tamp ac oer. Arbedwch wres yn y tŷ gwydr trwy gau'r drws a ffenestri yn y pnawn.

Bwydwch eich lawnt ym mis Medi a defnyddiwch fforch i chwalu unrhyw fwsogl o'r gwair, mae'n amser delfrydol i hau lawnt newydd hefyd.

Os ydach chi wedi hau planhigion deu-flwydd (*biennials*) megis blodau'r fagwyr (*wallflowers*), nad af i'n angof, penigan barfog (*sweet William*) neu fysedd y cŵn, nôl ym mis Mehefin, dyma'r amser delfrydol i'w gosod yn eu cartref olaf. Mi ddylien nhw flodeuo i chi yn ystod y gwanwyn a'r haf. Os na chawsoch chi amser i hau rhai, neu os ydy'r malwod neu'r tywydd oer wedi eu chwalu nhw, mi allwch brynu rhai o'ch canolfan arddio lleol.

***Rhosyn Mynydd***

# CHWILAIR  MIS AWST A MEDI – EISTEDDFOD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | G | O | R | S | E | Dd | Y | B | E | I | R | Dd | W | U |
| B | I | C | M | S | U | T | Ŷ | G | W | E | R | I | N | D |
| D | M | E | D | A | L | R | Y | Dd | I | A | I | Th | E | A |
| A | R | I | A | D | A | C | S | T | F | N | R | S | D | W |
| W | E | D | N | M | E | T | L | I | Ch | C | B | D | A | N |
| N | C | W | W | T | I | D | R | G | W | Y | A | E | W | S |
| S | O | A | I | N | S | P | A | I | S | Ng | N | T | N | F |
| I | R | D | L | A | B | E | R | Th | G | E | D | I | S | L |
| O | N | Y | I | D | T | O | Ch | A | C | R | I | I | I | O |
| G | H | C | F | Dd | E | F | Dd | T | I | Dd | A | E | O | D |
| W | I | L | A | R | M | A | E | S | B | W | U | Dd | D | A |
| E | R | E | P | E | C | O | R | O | N | O | P | C | I | U |
| R | L | Dd | R | C | G | H | W | D | A | Ng | R | O | S | T |
| I | A | M | Y | B | I | L | Y | Ll | H | Ph | E | D | G | A |
| N | S | W | S | Ff | E | C | Dd | U | I | T | S | A | O | L |

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eisoes wedi bod, ond gallwn edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst. Os nad ydach chi'n hoff o fod yng nghanol llawer o bobl, beth am fentro mynychu a/neu cystadlu yn un o'n eisteddfodau bach lleol.  Un peth sy'n gyffredin iddynt i gyd yw'r rheol Gymraeg, h.y. Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod ond bod croeso cynnes i bob un sydd wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg neu'n mwynhau gwrando neu wylio pob math o gystadlu yn y Gymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| ABERTHGED | CORN HIRLAS | GORSEDD Y BEIRDD |
| ARCHDDERWYDD | CORON | MAES B |
| BANDIAU PRES | CYNGERDD | MEDAL RYDDIAITH |
| CADAIR | DAWNS FLODAU | PAFILIWN |
| CEIDWAD Y CLEDD | DAWNSIO DISGO | PRIFARDD |
| CERDD DANT | DAWNSIO GWERIN | TŶ GWERIN |

Cewch yr atebion i'r chwilair yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | N | A | S | D | I | N | Ll | E | Ll | A | I | M | Ff |
| A | C | E | W | T | Ch | B | D | A | F | Y | N | L | W | R |
| O | A | Ll | A | N | G | R | A | N | N | O | G | S | N | A |
| S | B | I | D | F | T | E | C | Dd | I | D | E | Y | T | P |
| B | E | N | Ll | E | Ch | G | R | W | B | R | L | B | I | O |
| L | R | A | T | N | Y | M | I | Y | A | M | O | A | N | R |
| Y | Ff | H | C | H | Th | A | C | N | E | Y | Rh | Y | L | Th |
| D | R | N | E | Y | I | M | I | C | T | W | R | J | T | D |
| F | A | G | I | C | Ch | T | E | A | R | E | S | O | R | I |
| U | W | L | N | P | O | R | Th | M | E | U | D | W | Y | N |
| H | D | S | E | O | S | P | D | L | A | Y | W | G | I | LL |
| Y | R | E | W | R | R | A | B | E | R | M | A | W | H | A |
| B | M | L | Y | Th | E | Ph | I | Ll | Dd | I | N | A | S | E |
| A | Th | W | Dd | O | B | G | P | O | U | T | R | P | O | N |
| T | E | R | N | R | A | N | N | G | R | A | I | G | Dd | U |

## ATEBION I CHWILAIR  MIS GORFFENNAF – TRAETHAU

**Dyma'r atebion i'r cwestiynau ofynwyd y mis diwethaf:**

1. Mae Tafarn y Ty Coch wedi ei leoli ym **Mhorthdinllaen**.
2. Mae'r tywod yn chwibannu yn **Nhraeth Porthor.**
3. Canodd y grwp Hergest am **Dinas Dinlle**.
4. **Benllech** yw'r traeth mae'r grwp Mynediad am Ddim yn canu amdano, er eu bod yn dweud, "… nad yw'n nefoedd, yn enwedig yn yr haf…"

| | | |
|---|---|---|
| ABERFFRAW | CEMLYN | LLIGWY |
| ABERMAW | CRICIETH | MWNT |
| ABERSOCH | DINAS DINLLE | PORTHDINLLAEN |
| BAE TREARDDUR | GRAIG DDU | PORTHOR |
| BENLLECH | LLANDDWYN | PORTH MEUDWY |
| CEI NEWYDD | LLANGRANNOG | RHYL |
| IRAN | | |


LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd



8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# Enwau Dieithr



Tyddyn Elan, Llanrug tua 1905.

Addewais y mis diwethaf y byddai angen mwy o amser i chwilio am enwau dieithr ym mhlwyfi Betws Garmon a'r Waunfawr. Y broblem fwyaf oedd y ffaith fod y ddau blwyf wedi newid ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Waunfawr yn rhan o Lanbeblig a rhan o Fetws Garmon yn cyrraedd Rhyd-ddu tra bo un rhan bresennol yn perthyn i Lanwnda bryd hynny. Ac yr oedd llai o enwau dieithr yn y ddau blwyf nac a gafwyd ym mhlwyfi Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug. Mae'n bosib fod mwy na'r canlynol, ond roedd Closs ym Metws Garmon hefyd! Enwau eraill yn ymddangos oedd Walker, Solomon, Rogers, Daniel a Francis.

Deuthum ar draws nodyn bach diddorol arall yn ymwneud â'r enw Peters. Yn ôl y 'Dictionary of English Surnames' dywedir fod yr enw yn dilyn y patrwm diweddar Cymreig o ffurfio cyfenw, sef ychwanegu 's' ar ddiwedd enw personol, yn union fel Evan yn troi'n Evans, Robert yn Roberts ac yn y blaen.

Dull arall o ddarganfod enwau dieithr yw archwilio arysgrifau cerrig beddi, ac os oes dyddiadau geni a marw ar y rhai hynny, yna mae'n haws darganfod o ble yn wreiddiol y daeth y dieithriaid hyn. Euthum ati felly i ddewis enwau ar hap o arysgrifau mynwent Llanrug, un o'r mynwentydd gwledig mwyaf, sy'n cynnwys nifer helaeth o gladdedigaethau o'r tu allan i'r plwyf. Yn od iawn, deuthum ar draws dau enw dieithr yn byw o fewn lled cae i'w gilydd yn Llanrug, a dyna roi cychwyn ar helfa ddiddorol er na chefais yr atebion hyd yma i'r holl ymholiadau.

***Tyddyn Elan***

Yn 1873 claddwyd merch fach dair oed o'r enw Emily Selena Lane. Bedair blynedd yn ddiweddarach claddwyd ei mam hefyd, sef Mary Anne Lane, gwraig i William Lane. Rhoddir enw'r cartref fel Tyddyn y Felin. Yn Llanddeiniolen y mae Tyddyn y Felin, ond o edrych ar Gyfrifiad 1871 gwelir mai camgymeriad yw enw'r cartref. Yn Nhyddyn Elan, Llanrug (ar y chwith rhwng Sgwar y Post ac Ysgol Brynrefail heddiw) yr oedd y teulu yn byw; tŷ sylweddol ei faint bryd hynny. Mae'n syndod felly mai fel labrwr y mae William Lane yn disgrifio'i hun. Sut tybed y gallai fyw mewn tŷ o'r fath? Fe'i ganed yng Nghernyw, a'i wraig o Ddulyn. Roedd Emily Selena wedi ei geni yn Llanberis, ond roedd yno ddwy o ferched eraill hefyd: Elizabeth a Sarah, y ddwy wedi eu geni yn Swydd Gaerhirfryn. Roedd William wedi teithio cryn dipyn felly yn chwilio am waith. Doedd ei gyfnod yn y fro hon ddim yn un hapus – colli merch fach yn dair oed, a cholli ei wraig bedair blynedd yn ddiweddarach. Ei gyfenw dieithr a dynnodd fy sylw – Lane, oherwydd yr oedd John Lane yn byw yn Llanberis tua'r un cyfnod (mae ei enw wedi ei goffhau yn Lane Terrace), ac yn Llanberis y ganed merch fach William.

A oedd William Lane yn berthynas i John Lane? Ond roedd eu statws cymdeithasol yn bell ar wahân; John Lane yn ŵr busnes llwyddiannus yn delio'n y fasnach lechi o chwareli Glynrhonwy a William Lane yn labrwr crwydrol. John Lane a'i bartner Thomas Field oedd yn bwriadu codi tai gwyliau moethus ar y tir rhwng afon Goch a Glynrhonwy. Adeiladu rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis roes ddiwedd ar eu cynlluniau, a dim ond un o'r tai gwyliau a adeiladwyd – Bodafon, yr Heights presennol, ac yno yr oedd John Lane a'i deulu yn byw. (Mae hanes y fenter aflwyddiannus hon eisoes wedi ei hadrodd). Wedi marwolaeth John Lane symudodd ei weddw, Charlotte Lane i fyw i Lanrug – i Dyddyn Elan. Mae angen cryn dipyn mwy o waith ymchwil i ddarganfod a oedd John Lane wedi prynu Tyddyn Elan tra'n byw yn Llanberis, ac os oedd perthynas rhyngddo a William Lane, fod hwnnw wedi ei roi yn Llanrug i fyw i gadw golwg ar Dyddyn Elan. Ond dyfalu yn unig yw hynny!

***Cae Poeth***

Mae'r ail enw/enwau yn fwy fyth o ddirgelwch, ac yn ymwneud â theulu oedd yn byw ar fferm Cae Poeth. Led cae o gefn y ffermdy mae Tyddyn Elan. Ym mis Hydref 1859 claddwyd gwraig ifanc 33 mlwydd oed o Gae Poeth. Ei henw oedd Jane Mumford; enw hollol ddieithr i'r ardal, ond mae'n ymddangos mai Cymraes oedd hi, wedi ei geni yn Sir Gaernarfon. Ei gŵr, John James Mumford oedd y 'dieithryn', ond does dim sicrwydd a fu ef yn byw yng Nghae Poeth erioed. Ym mis Rhagfyr 1856 priodwyd drwy drwydded yn Eglwys Llanrug, John James Mumford a Jane Evans. Roedd J.J.Mumford yn byw yn Coed Goleu ar y pryd, ac yn cael ei ddisgrifio fel 'esquire'. Enwir ei dad yn John Mumford, yntau hefyd yn 'esquire', ac yn dod o Pledgedon Hall, Essex. Ar ddydd ei phriodas roedd Jane Evans yn byw yng Nghastell Bryn Bras, ac enwir ei thad fel Thomas

# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039 - Gwahoddiad i Gyflwyno Safleoedd Posib

Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd (sef yr ardal o Wynedd a leolir tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Bwriad y Cynllun yma fydd cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion Gwynedd am y cyfnod hyd at 2039.

Pan fydd yn ei le, bydd y Cynllun yn llywio penderfyniadau ar gynigion datblygu a cyfarch anghenion a chyfleoedd yr ardal.

Prif bwrpas y Cynllun Datblygu Lleol yw rhoi arweiniad ar y mathau o ddatblygiadau sydd yn addas mewn lleoliadau gwahanol.

Yn unol â gofynion statudol mae'n ofynnol dilyn cyfres o gamau wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Y broses o 'Alw am Safleoedd' yw un o'r camau cyntaf yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun.

**Y cyfnod 'Galw am Safleoedd'**

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod am safleoedd posib a allai fod yn addas i'w datblygu a'u gwarchod o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Estynnir gwahoddiad i'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, datblygwyr a thirfeddianwyr gyflwyno Safleoedd Posib i'w cynnwys yn y Cynllun.

Bydd y gofrestr ar gyfer cyflwyno Safleoedd Posib yn cael ei hagor ar 10fed Gorffennaf 2024 am gyfnod o 12 wythnos. Bydd y gofrestr yn cau ar 2il Hydref 2024.

Mae posib cyflwyno tir ar gyfer ystyriaeth i'w gynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer nifer o ddefnyddiau (e.e. tai, cyflogaeth, manwerthu) neu mae posib cynnig tiroedd ar gyfer ystyriaeth i'w gwarchod rhag ei ddatblygu.

Pwysleisir nad yw ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn cynnwys yr ardal o Wynedd a leolir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Sut i gyflwyno ' Safle Posib'

Y ffordd orau a mwyaf hwylus i gynnig safle yw llenwi'r ffurflen cynnig Safle Posib ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein yn galluogi cynigwyr safleoedd i gynhyrchu a chyflwyno map, cael gwybodaeth

Evans, gentleman. O fewn blwyddyn i'r briodas ganed John Philips Mumford. Erbyn Hydref 1859 roedd John Philips Mumford yn blentyn amddifad – does dim sôn am ei dad wedyn am bron i chwarter canrif.


Mae'n amlwg iddo gael ei fagu ar fferm Cae Poeth. Mae'n ymddangos ar y cyfrifiadau yno hyd 1881, ond ansicr yw ei berthynas â'r teulu. Fe'i disgrifir fel '*nephew*' ac fel '*grand-son*'. Ond nai neu ŵyr i bwy? Yn 1861 Evan Jones a'i wraig Catherine oedd yn byw yng Nghae Poeth. Ar garreg fedd Jane Mumford (Evans yn wreiddiol), mae coffa am Mary Taylor, gweddw Capten Taylor, Tŷ Coch, Bangor, ond yn byw yng Nghae Poeth ar ei marwolaeth yn 1864. Mae coffa hefyd i Catherine, merch Mary Taylor, a gwraig William Davies, Cae Poeth. Yn 1881 roedd Catherine a William Davies yn cael eu cofnodi yng Nghae Poeth. Ond ai'r un Catherine yw hon a'r un oedd yn briod ag Evan Jones? Mae oedran Catherine Jones a Catherine Davies yn cyfateb; y ddwy wedi eu geni tua 1815, ac yr oedd Catherine gwraig Evan wedi ei geni ym Mangor. Ond i gymhlethu pethau fwy-fwy, roedd gwraig weddw o'r enw Mary Taylor yn 'housekeeper' yng Nghastell Bryn Bras yn 1851. Yno hefyd fel ymwelydd roedd merch ifanc 23 oed o'r enw Jane Evans – yn cyfateb i'r Jane a briododd J.J.Mumford.

Mae'n ymddangos felly fod y rhain i gyd yn berthnasau i'w gilydd, ac fel pe'n cadarnhau hynny, gwyddom mai un o ddisgynyddion teulu Owen Gethin Williams o Gae Poeth fu'n gyfrifol am adeiladu Castell Bryn Bras.

Ond beth am y bachgen amddifad a fagwyd efo'r teulu yng Nghae Poeth? Mae'n fwy na thebyg y gallai siarad Cymraeg, ond does wybod ble cafodd ei addysg. Erbyn 1881 ac yntau'n dal i fyw yng Nghae Poeth, mae'n disgrifio'i hun fel 'architect'. O fewn dwy flynedd mae'n priodi yn Eglwys Sant Lawrence, Pudsey, pentref bryd hynny rhwng Leeds a Bradford. Fe'i priodwyd drwy drwydded gydag Ada Beatrice Singleton, 21 oed, merch Nathaniel Singleton, 'gent'. Enwir tad John Philip ar y dystysgrif priodas fel John James Mumford, ac am y tro cyntaf cawn wybod mai 'Army Surgeon' oedd ei alwedigaeth. Mae John Philip ei hun yn disgrifio'i alwedigaeth fel 'architect and surveyor'. Mae'n ymddangos felly fod y briodas yn cadw at statws gymdeithasol y teulu. Does wybod beth a achosodd i'r bachgen amddifad o Lanrug symud i ardal Leeds/Bradford.

Wedi'r briodas, methais a darganfod John Philip ac Ada Beatrice Mumford ar gyfrifiad 1891 nac 1901, ond daw i'r amlwg eto yn 1911 ac y mae ei amgylchiadau wedi newid. Mae'n ymddangos ei fod ef ac Ada wedi gwahanu, neu'n fwy tebygol, fod Ada wedi marw, oherwydd bellach, enw ei wraig yw Alice, ac fe'i ganed yn Nulyn. Nodir eu bod yn briod ers pymtheng mlynedd, ond nad oedd plant o'r briodas. Roeddent yn byw yn 17 The Greenway, Uxbridge, Llundain, ac o bosib mai tŷ lodjin oedd hwn. Yno hefyd ar noson y cyfrifiad roedd pump o 'boarders' a phedwar 'ymwelydd'. Bellach, mae John Philip wedi peidio a bod yn architect, ac yn disgrifio'i alwedigaeth fel 'bandmaster'! Tybed ai yn Llanrug, tra'n blentyn a llefnyn ifanc y datblygodd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth? Roedd Band Llanrug yn y cyfnod hwnnw yn cael ei gyfrif yn un o brif fandiau pres gogledd Cymru, ac efallai fod y John Philip ifanc wedi derbyn ei addysg gerddorol gyda'r band hwnnw. Ond dyfalu eto yw hynny!

Mae ceisio olrhain helyntion rhai o'r enwau dieithr a ddaeth i'n bro yn hynod ddiddorol, ond yn ein harwain ar drywydd di-ben-draw yn amlach na pheidio.



BURIALS in the Parish of Bettws Garmon in the County of Caernarvon in the Year 1831

| Name. | Abode. | When buried. | Age. | By whom the Ceremony was performed. |
|---|---|---|---|---|
| Mary Jones daughter of Hugh Jones No. 209. | Waunfawr | 19 April | 1 year | H. Williams |
| Mary Humphreys No. 210. | Hafod olau | 13 May | 50 | H. Williams |
| John Williams No. 211. | Dwr ... (Waunfawr) | 10 June | 77 | H. Williams |
| William Williams (Illegitimate) No. 212. | Truan | 6 July | 5 months | H. Williams |

Cofnod claddu plwyf Betws Garmon 1831

**Wil Began Ifan**

Gyda diolch i Robert Williams, Waunfawr am ychwanegu at hanes Wil Began Ifan, y cafwyd ei hanes eisoes yn yr 'Eco' – a chodi cwestiwn ynglŷn â phwy yn union oedd ei dad. Ym Meddgelert y bedyddiwyd William, mab anghyfreithlon Margaret Evans a William Turner. Ond sylwodd Robert fod William wastad yn rhoi ei oedran tua pedair neu bum mlynedd yn ieuengach na'r cofnod bedydd. *"Roedd hynny,"* meddai, *"a'r ffaith mai William Prichard oedd yn galw ei hun – yn hytrach nac Evans ar ôl ei fam neu Williams/Turner ar ôl ei dad wedi achosi i mi chwilio am esboniad."* A daeth ar draws cofnod yng Nghofrestr Betws Garmon o gladdu William Williams, plentyn anghyfreithlon 5 mis oed ym mis Gorffennaf 1831, sy'n cyfateb i'r plentyn a fedyddiwyd ym Meddgelert.

*"Os hynny,"* meddai Robert, *"mae'n ymddangos mai ail fab anghyfreithlon i Began Ifan (Margaret Evans) oedd y gwir Wil Began Ifan, ond hyd yma, rwyf wedi methu darganfod ei gofnod bedydd."*

Diddorol hefyd yw nodi mai 'Truan' yw enw'r cartref o ble claddwyd y baban 5 mis oed. Roedd dau annedd o'r enw Traian/Treuan yn nyffryn afon Gwyrfai. Roedd un yn yr ardal rhwng Castellmai a Chaeathro, ond does gen i ddim syniad o'i union leoliad. Roedd yr ail ym mhlwyf Llanwnda fel yr oedd bryd hynny, ar draws yr afon o Eglwys Betws Garmon ac yng nghyffiniau Pentre Bach a Thyddyn Syr Hugh. Mae'n debyg mai oddi yma y claddwyd y baban bach.

Dyna ddigon o waith cnoi cil arno dros fisoedd yr haf, ond byddwn yn falch o dderbyn mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r unigolion neu'r teuluoedd a grybwyllir uchod. Cysylltwch hefyd gydag unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes lleol y fro – anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

am gyfyngiadau, gweld y canllaw ar gyfer cyflwyno safle ac uwch lwytho dogfennau perthnasol.

Os ydych yn cael anhawster gyda'r broses o gyflwyno safle ar-lein neu yn dymuno derbyn arweiniad pellach, bydd Swyddog o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gael i roi cymorth ac eich tywys drwy'r broses. Os ydych angen cyfarfod wyneb yn wyneb neu'n dymuno cael copi papur o'r ffurflen, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio i wneud apwyntiad.

Gallwch ffonio 01766 771000 gan ofyn i gael sgwrs â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio, neu anfonnwch ebost at polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

**Nodwch nad yw cyflwyno safle posib yn golygu ymrwymiad gan y Cyngor i ddwyn safleoedd ymlaen i Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd.**

Bydd yr holl Safleoedd Posib a gyflwynir yn cael eu rhoi ar Gofrestr Safleoedd Posib. Bydd y Gofrestr o Safleoedd Posib ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor. Ni roddir enwau a manylion cyswllt y cynigwyr ar y gofrestr gyhoeddus.

Gweler wybodaeth bellach a manylion am y meini prawf asesu ar gyfer ystyried y safleoedd ynghyd â nodiadau canllaw i lenwi'r ffurflen cyflwyno Safle Posib ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.llyw.cymru/safleoeddposib

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# PENISARWAUN

**Eisteddfod Bentref**
Cynhaliwyd ein Eisteddfod Bentref flynyddol yn y Neuadd Gymuned ar nos Fercher 17eg o Orffennaf. Diolch yn fawr i'r Pwyllgor am yr holl waith trefnu, i'r beirniaid am eu gwaith caled ac yn arbennig i bawb fu'n cystadlu neu'n cefnogi. Cafwyd noson hwyliog iawn a braf oedd gweld cymaint o blant yn cystadlu. Fe gewch yr hanes i gyd yn rhifyn nesa'r Eco.

**Priodas**
Dymuna Annest a Danny Griffith, Llys Celyn, ddiolch am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Rhys Griffith, Tros y Waen, ar ei lwyddiant diweddar yn seiclo 326 milltir o Bermo i Great Yarmouth er mwyn casglu arian i ddwy elusen – Sefydliad DPJ a Chymdeithas Ceffylau Sir. Roedd tîm o wyth ohonynt yn seiclo, ac maent wedi codi dros £17,000 i'w rannu rhwng y ddwy elusen. Go dda ti, Rhys.

Llongyfarchiadau hefyd i Myfi Hughes, Winllan, ar ddod yn drydydd ar y Vault yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Buckley ddiwedd Mehefin. Pob lwc hefo'r gystadleuaeth nesaf!



**Gwellhad buan**
Hoffem ddymuno gwellhad buan i Catrin Roberts, Prifathrawes Ysgol Gymuned Penisarwaun, ar ôl iddi dderbyn triniaeth diweddar ar ei ffêr. Gobeithio y byddwch yn ôl ar eich traed yn fuan.

**Côr Dre**
Mae ambell un o'r pentref wedi bod yn brysur iawn yn canu hefo Côr Dre yn ddiweddar – gan recordio Noson Lawen yn Pontio (fydd ymlaen yn yr hydref) a chystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Cafodd y côr benwythnos llwyddiannus iawn yn yr Ŵyl ddechrau Gorffennaf, gan gipio tair gwobr – Côr Cymysg, Côr yr Ŵyl a'u harweinydd, Siân Wheway, yn derbyn y wobr am Arweinydd Corawl Gorau.

**Prosiect Pum Mil**
Mae criw Prosiect Pum Mil yn dal i chwilio am bobol i helpu gyda phrosiect datblygu Festri'r Eglwys, yn enwedig pobol â sgiliau megis adeiladwyr, trydanwyr, plymiwr neu beintiwr. Os gallwch helpu mewn unrhyw ffordd, buasem yn ddiolchgar iawn os gallech gysylltu â Rhiannon Jones neu Christine Anderton, neu trwy'r manylion ar y poster.

**Eglwys Santes Helen**
**Gwasaethau yr Eglwys**
Gweinyddir yr Offeren Sanctaidd am 11.00 y bore ar y Suliau: 28ain Gorffennaf, 4ydd, 11eg, 18fed a'r 25ain Awst

**Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen**
4ydd Awst am 3.00 y prynhawn – Yr Offeren Sanctaidd ynghyd â'r Sacrament o Fedydd.

**Cydymdeimlad**
Dymuna cwsmeriaid y pentref ddatgan eu cydymdeimlad dyfnaf ag Eirwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli mab, Michael John – gŵr annwyl, tad, llysdad, brawd a ffrind i lawer.






# Ysgol Penisarwaun

**Trip y Dosbarth Sylfaen i Pontio i weld Sioe Cerdyn Post o Wlad y Rwla**
Cafodd plant y Dosbarth Sylfaen fynd i Theatr Pontio i wylio sioe Cerdyn Post o Wlad y Rwla. Cafodd pawb amser gwerth chweil yn y sioe yn gwylio eu hoff gymeriadau o gyfres Rala Rwdins. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael cyfarfod y cymeriadau ar ddiwedd y sioe!







**Diolch**
Ar y 15fed o Fehefin, daeth gwasanaeth dosbarthu llefrith o Lwyncoed, Cwm y Glo, i ben wedi 150 o flynyddoedd. Ail ddechreuoedd Eirwyn y gwasanaeth ddechrau'r 1970au. Dymunir diolch i Eirwyn am ei wasanaeth diflino a hynny drwy bob tywydd am yr holl flynyddoedd. Diolch o galon.

**Gwellhâd**
Anfonir ein cofion anwylaf at y rhai ohonoch sy'n sâl yn y pentref.

**Penblwyddi Arbennig**
Penblwydd Hapus arbennig i Siôn Roberts, Treflys a hwyl i ti ar y dathlu ar Awst 20fed yn 50 mlwydd oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Jean Roberts, Treflys, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed ar Awst 29ain, gan Sioned, Siôn a Llion a'r teulu a phawb yn y pentref. Diolch i ti Jean am dy gyfeillgarwch annwyl a'th gymwynasau di-ri. Dymuna genod Clychau'r Grug benblwydd arbennig i ti hefyd.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Tynnwyd Clwb Cant, enillwyr Gorffennaf yw:
1af - Beca Jones, Llanfair P.G.
2il - Elen Lewis, Penpwllcoch

**Enillwyr Awst yw:**
1af - Twm Jones, Llanfair P.G
2il - Sharon Cunningham

Erfynnir am fwy o aelodau i ymuno â'r Clwb Cant am £12 o Fedi i Fedi. Dymunir diolch i'r aelodau ffyddlon sydd wedi cefnogi'r Clwb a'r holl weithgareddau er budd y gôst o redeg y Neuadd Gymunedol. Mae modd llogi'r Neuadd, yr Ystafell Gymunedol a'r gegin am bris rhesymol. Cysyllter â'r Trysorydd ar 01286 870 433 neu 07772 689 235. Mae maes parcio eang ar gyfer trafnidiaeth.

Cynhelir pwyllgor ym mis Medi i drefnu gweithgareddau i gymdeithasu a thynnu Clwb Cant. Gwyliau dedwydd i bawb ohonoch.

**Pob lwc**
Bydd nifer o'r pentref yn brysur iawn dros yr haf yn cystadlu mewn sioeau ac eisteddfodau – pob lwc i chi i gyd ac edrychwn ymlaen at glywed sut aeth hi.

Pob dymuniad da i'r rhai ieuengaf fydd yn cychwyn eu haddysg yn yr Ysgol Gymuned, i'r rhai sydd yn mynd ymlaen i Ysgol Brynrefail, neu'n dechrau mewn amryw golegau a swyddi.







**Diwedd tymor**
Mae 10 o ddisgyblion yn trosglwyddo o Benisarwaun i Frynrefail eleni. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddynt yn yr ysgol uwchradd ac yn eu gyrfa. Hoffwn yn ogystal ddiolch i'r disgyblion a'u rhieni am eu gwaith caled a'u cefnogaeth i'r ysgol dros y blynyddoedd.

Hoffwn ddymuno gwyliau haf dedwydd a hapus i bawb.



**Diwrnod Môr Ladron y Dosbarth Sylfaen**
Cafodd plant y Dosbarth Sylfaen ddod i'r ysgol yn eu gwisgoedd môr ladron ar gyfer diwrnod arbennig llawn hwyl. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael chwilio am y trysor yn ystod yr helfa drysor, gwneud hetiau môr ladron a chael canu ein sianti môr ladron ein hunain. Ar ddiwedd y dydd cafodd pawb fwyta eu lolis rhew iach a dawnsio fel môr ladron. Roedd pawb yn edrych yn wych gyda'u wynebau wedi eu peintio a'u gwisgoedd hyfryd!

**Tymor Newydd**
Bydd ysgol Penisarwaun yn ailagor i ddisgyblion fore Mercher, Medi'r 4ydd. Edrychwn ymlaen i groesawu pawb yn ôl bryd hynny!



**Trip i Sŵ Bae Colwyn**
Aethom fel ysgol ar drip diwedd y flwyddyn i Sŵ Bae Colwyn. Cafodd pawb fwynhau sioe y pengwiniaid a'r morloi yn ogystal â gweld yr anifeiliaid eraill yn y sŵ. Roedd y tywydd yn sych a chawsom fanteisio ar y cyfle i gael chwarae yn y parc gyda'n gilydd.





## DEINIOLEN

**Diolchiadau**
Hoffai Jane a Neville, 14 Tai Caradog, ddiolch i gymdogion, ffrindiau a theulu am y galwadau a'r dymuniadau da yn ystod cyfnod Jane yn yr ysbyty. Mae pawb wedi bod yn garedig dros ben.

**Eglwys Crist**
Da oedd cael croesawu y Canon Rosie Dymond o Fro Beuno Sant ac Uwchgwyrfai i ddathlu ein Dydd Rhodd eleni. Cawsom wasanaeth a phregeth arbennig gan y Canon Dymond, diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ar y Sul yma.

Fynwent - mae Mr Berwyn Jones wedi ail-afael i dorri mynwent yr Eglwys eto eleni, ac mae'n gwneud llawer o wahaniaeth pan mae teuluoedd yn ymweld. Mae angen arian i dorri gwair a chynnal y fynwent ond mae'n gwneud gwahaniaeth i ymwelwyr. Buasai Mrs Gwen Griffith, Fron, Mr Len Jones, 11 Hafod Oleu, neu Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu yn falch o dderbyn eich cyfraniadau er mwyn gallu parhau â'r gwaith o gynnal a chadw'r fynwent.



**Merched y Wawr**
Gwibdaith pen tymor – am newid eleni cawsom drip i ymweld â Port Sunlight a'r Lady Lever Gallery ar y Wirral. Yno gwelsom lun gwreiddiol ac eiconig Salem gan Curnow Vosper. Cawsom gyfle hefyd i grwydro'r amgueddfa ac o gwmpas pentref Port Sunlight a chlywed mwy am hanes y pentref a'i ddatblygiad ynghlwm a'r ffatri sebon enwog.

Yna pawb yn ôl ar y bws ac am Birkenhead i ddal y gwch ar hyd yr afon Merswy gan glywed hanes y ddinas a datblygiadau ar hyd glan yr afon. Yna cyrraedd Doc Albert a threulio amser yn y ddinas cyn dychwelyd am adra. Diolch yn fawr i Jackie am yr holl waith trefnu trylwyr unwaith eto. Roedd yn ddiwrnod hynod o ddifyr a diddorol a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

**Cymorth Cristnogol**
Llwyddwyd i gasglu swm o £844.08 eleni yn Neiniolen tuag at Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb a fu yn rhannu a chasglu yr amlenni, a diolch i holl drigolion y pentref unwaith eto eleni am gyfrannu yn hael.

**Cydymdeimlad**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd o Tan-y-Buarth Uchaf, Dinorwig, bu farw Elizabeth Ann Jones yn 87 mlwydd oed.

Priod cariadus y diweddar Richard Gwilym, mam hoff Elenyd, Einir ac Irfon a mam-yng-nghyfraith Maldwyn a Gwyn, nain arbennig Elfed a'i bartner Sioned, Jonathan a'i bartner Avril, ac Andrew a hen nain, Llewelyn, Steffan, Siwan a Llio. Chwaer annwyl Megan, Meirwen, Bob a'r diweddar Selwyn ac Owain John a chwaer-yng-nghyfraith Olwen, Idris, Monica, Charles a'r ddiweddar Susan ac Elizabeth Parry, cyfneither annwyl i Mair, Heulwen a Margaret a modryb annwyl. Colled trist i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Newyddion gan y Cynghorydd**
Roedd yr adran yn Nghyngor Gwynedd a oedd yn gyfrifol am gwblhau gwaith tarmacio ar lwybr sinc ger yr Afon, a llwybr ger Garej Arfon yn gwerthfawrogi yr amser a gafwyd gydag aelodau o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Buaswn yn hoffi diolch i'r cyngor am eu gwaith da, ac hefyd i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am dalu am y gwaith.

Rwyf hefyd wedi mynd at y cyngor i gwyno am gyflwr Capel Eban. Mae'r to i weld mewn cyflwr drwg. Dwi hefyd wedi gofyn i'r person sydd yn gyfrifol am y tir ger yr hen doilets i ddod i fyny i glirio.

## DINORWIG

**Diwedd tymor**
Anodd credu fod gwyliau'r haf ar ein gwarthaf, a'r haf ei hun heb gyrraedd. I ble tybed yr aeth hanner cyntaf y flwyddyn? Diflannodd y mis diwethaf ar amrantiad rhwng yr holl sylw a gafodd yr etholiad a'r gystadleuaeth bêl-droed. Ond ni ddiflannodd y glaw, gwaetha'r modd, gyda gofalu am y gerddi yn anodd, a hwythau'n mynd yn flêr ac yn wyllt. Mae'r arholiadau drosodd i'r plant a does ond gobeithio y caiff pob un ganlyniadau canmoladwy ganol Awst. Ddaeth hi ddim yn ddiwedd tymor ar drafnidiaeth yr Allt Ddu chwaith, a'r torfeydd yn dal i heidio yma. Yn sgil yr holl ymwelwyr gwelwyd nifer o dyddynnod yr ardal yn cael eu gwerthu; gan amlaf i estron, a'r defnydd o'r Gymraeg yn pylu. Cymdogion di-Gymraeg sydd gen i bellach. Mae'n chwith meddwl nad oes ysgol, capel nac eglwys yma bellach.

**Gwasanaethau'r Sul**
Dalier sylw na fydd gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ystod mis Awst yn Nhŷ Elidir, Deiniolen. Dyma'r oedfaon am fis Medi. Sylwch fod yr amseroedd yn amrywio o Sul i Sul.

1af Medi: Parch Anna Jane Evans, Caernarfon, 2.00pm

8fed Medi: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni, 3.30pm

15fed Medi: Mr Arwel Williams, Caernarfon, 3.30pm

22ain Medi: Miss Eleri Jones, Bangor, 3.30pm

29ain Medi: Mr Eurfryn Davies, Bangor, 3.30pm

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd, gan ddymuno gwellhad buan i bob un ohonoch.

**Edrych ymlaen**
Fe fyddwn ar drothwy'r Eisteddfod Genedlaethol erbyn i'r rhifyn hwn gyrraedd eich cartref. Cefais bleser mawr yn gwylio Eisteddfod yr Urdd, a does ond gobeithio y cawn weld holl ddigwyddiadau'r Genedlaethol ar y teledu hefyd.

**Diolch**
Carwn ddiolch i bawb sydd wedi bod mor gymwynasgar dros y misoedd diwethaf, a minnau heb fedru defnyddio'r car. Diolch arbennig i'r rhai sydd wedi fy nghario i'r oedfaon yn Neiniolen bob Sul.



# Beicio i'r Gemau Olympaidd

Wel, nid yn llythrennol. Ond fe fydd Rhys James o Ddeiniolen yn teithio i Baris ym mis Awst fel rhan o dîm Beicio Prydain, ac yn dilyn yn ôl troed Syr David Brailsford, un arall a fagwyd yn Neiniolen, ac a gyrhaeddodd uchelfannau'r byd beicio. Beth felly a ysgogodd Rhys i ddilyn gyrfa yn y maes hwn?

Ers yn fachgen ifanc roedd ganddo ddiddordeb arbennig mewn chwaraeon a mathemateg. Yn yr ysgol, pêl-droed a rhedeg oedd yn mynd â'i fryd, ac yn unarddeg oed roedd yn bencampwr rhedeg traws-gwlad Cymru. Wrth wneud gwahanol dasgau o gwmpas y tŷ byddai wastad yn ceisio darganfod os oedd ffyrdd gwell a chynt o wneud y gwahanol dasgau rheini. Y ddau ddiddordeb hyn a'i harweiniodd i ddilyn cwrs Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Wedi graddio, dechreuodd weithio gyda Beicio Cymru, ac fel rhan o'r gwaith hwnnw bu'n trefnu gwahanol ddigwyddiadau led-led y wlad.

Ond dadansoddi perfformiadau oedd yn mynd â'i fryd, ac yn 2021 daeth y cyfle iddo wireddu ei freuddwyd, a chael ei benodi yn ddadansoddwr perfformiad Beicio Prydain. O fewn dyddiau i dderbyn y swydd honno roedd Rhys wedi symud i Fanceinion i gychwyn ar ei swydd newydd. Cyd-ddigwyddiad oedd y ffaith mai dyma flwyddyn Gemau Olympaidd Tokyo – a ohiriwyd am flwyddyn o ganlyniad i Covid. Cyfyngiadau teithio oherwydd Covid oedd y rheswm na chafodd hedfan i Tokyo, a bu'n rhaid i Rhys weithio o'i gartref, a hynny yn ystod y nos, yn dadansoddi'r



data a dderbyniai o Tokyo.

Ond beth yn hollol ydi dadansoddwr perfformiadau? Roedd David Brailsford yn hoff o sôn am yr hyn a alwai yn *'marginal gains'*; y pethau bychain rheini oedd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng ennill a bod yn un o'r 'rhai eraill' oedd yn cystadlu. A dilyn yr un egwyddor a wna Rhys hefyd. Mae'n gweithio gyda Thîm Trac Sbrint Prydain, ble mae un rhan o eiliad yn golygu'r gwahaniaeth rhwng ennill a cholli. Mae Rhys, trwy ddefnyddio camerau a meddalwedd soffistigedig yn darganfod ble gall amseroedd y beicwyr gael eu gwella. Gyda'i arbenigedd yn y maes, y gobaith yw y daw tîm Beicio Prydain yn ôl o Baris gyda medalau aur yn hytrach na rhai arian neu efydd – neu ddim o gwbl.



Yn ddiweddar mae Rhys wedi teithio'r byd gyda'i waith, gan ymweld ag Awstralia, Indonesia, Hong Kong, Slofacia, Ffrainc, Canada a Mallorca. Ond bydd yn ôl yng Nghymru ddiwedd y mis, gan fod beicwyr Prydain yn treulio cyfnod yng Nghasnewydd gyda'u paratoadau terfynol cyn teithio i Baris. Siawns nad y bachgen o Ddeiniolen fydd yn gyfrifol am ddod a llond trol o fedalau yn ôl o'r Gemau Olympaidd.

# Rheolwr Newydd i Gymru

Dwi'n siwr y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn cofio yn rhifyn diwethaf yr Eco mi ysgrifennais am ymadawiad Rob Page fel rheolwr Cymru. Erbyn hyn, mae rheolwr newydd wedi ei benodi. Enw cyfarwydd iawn a chyn-chwaraewr Cymru, Craig Bellamy.

Penodwyd Craig Bellamy yn rheolwr newydd Cymru ddechrau mis Gorffennaf gan arwyddo Cytundeb nes 2028. Mi fydd hyn yn golygu felly mai ef fydd yn ein harwain yn ymgyrch Cynghrair y Cenhedloedd a hefyd yn ymgyrch Cwpan y Byd 2026. Mae tipyn o her o flaen Bellamy ond yn bendant mae'r angerdd a'r brwdfrydedd yno ganddo.

Fel chwaraewr, fe chwaraeodd Bellamy i Gymru 78 gwaith ac fe fuodd yn gapten rhwng 2007-2010. Fe wnaeth ymddeol yn 2014 a rhoi ei fryd ar yr ochr hyfforddi. Yn ddiweddar, mae Bellamy wedi bod yn is-hyfforddwr yn Burnley o dan adain Vincent Kompany a cyn hynny wedi cael profiad yn Anderlecht a Chaerdydd.

Mi fydd llawer yn cofio Bellamy fel rhywun sydd ddim ofn dweud ei ddweud. Yn sicr mi fydd ei gyfweliadau yn ddiddorol iawn! Dwi'n tybio y bydd yn mynd am system ymosodol gan obeithio felly y bydd yn rhoi cyfle i rai fel Brennan Johnson, Dan James a David Brooks i lewyrchu.


Mi fydd ei gêm gyntaf wrth y llyw fis Medi yng Nghaerdydd a'r gwrthwynebwyr fydd Twrci (tim oedd yn edrych yn gryf iawn yn ystod yr Ewros – tipyn



o her fel gêm gyntaf felly).

Mae un peth yn sicr, mi fydd Bellamy yn rhoi 100% a mwy a gobeithio bydd cyfnod llewyrchus o'n blaenau o dan ei arweiniad.

**Mared Rhys Jones**




# Cyhoeddi Llyfr

Erbyn diwedd Gorffennaf, bydd Richard Lloyd Jones wedi cyhoeddi y llyfryn uchod. Yn y llyfryn, mae'n olrhain cysylltiad o dros 60 mlynedd gyda Chlwb Criced Dinas Bangor. Cyfnod sy'n cynnwys cyfnodau fel chwaraewr, capten, hyfforddwr, dyfarnwr, pwyllgorddyn a thirmon. Y mae bellach yn Aelod Oes o'r clwb.

Fel chwaraewr mae'n dwyn i gof sawl gêm ar lefel clwb, sir, Gogledd Cymru a Chymru. Yn naturiol ceir cyfeiriad at sawl chwaraewr fu'n gefn yn ei ddatblygiad. Hefyd unigolion fu'n haeddu parch fel gwrthwynebwyr. Dros y fath gyfnod, yn amlwg, cafwyd sawl newid a datblygiad yng ngweinyddiaeth y gêm. Cyfeirir at sefydlu Cynghrair i'r Gogledd cyfan, y 'torri ffwrdd' ac yna'r ail uno. Fel pob camp, mae i'r gêm ei chymeriadau. Cyfeirir at sawl un.

Rhennir heriau oedd yn wynebu bachgen o'r Gogledd i gadw ei le mewn timau rhyngwladol. Cawn ein cyflwyno i ambell i chwaraewr Prawf y wynebodd yr awdur hwy yn Nhŷ Newydd. Cawn wybod ei gysylltiad ag ambell un aeth ymlaen o Dŷ Newydd i chwarae'r gêm ar lefel Dosbarth Cyntaf a lefel Gemau Prawf. Matthew Maynard, Alan Jones, Majid Khan. Roy Fredricks ac Andy Flower… Cyflwynir ni i rai o'r chwaraewyr tramor a ddenwyd i Dŷ Newydd dros y tymhorau.

Rhoddir ei asesiad bersonol ohonno fel chwaraewr – yn gryfderau a gwendidau. Atebir ambell i gwestiwn: Beth yw rôl ysgolion yn natblygiad y gêm erbyn hyn? Pa effaith oedd cyfarfod Tanni Gray-Thompson? Pwy oedd bowliwr o Fro'r Eco wnai ddefnydd celfydd o natur i gipio wicedi? Sut y gallai 1999 fod wedi bod yn flwyddyn y 'dwbwl' iddo? Beth yw 'aelod' clwb?

Dyma gyfle prin i graffu ar y gêm drwy lygaid chwaraewr 'amatur' ond oedd a'i freuddwydion. Trwy sgript a darluniau mae'n daith sy'n dehongli datblygiad – er gwell er gwaeth – y gêm arbennig hon nid yn unig yn lleol a led-led y gogledd.

Os ydych yn byw yn nalgylch Eco'r Wyddfa ac yn dymuno prynu'r llyfr, yna gellir cysylltu â Richard yn bersonol a chewch y llyfr ar eich rhiniog. Rhif ffôn yr awdur yw 01248 670115.

Pris y llyfr yw £10. Mwynhewch.

# Dal i redeg...


Hugh a Fiona Morgan

**Ras Ultra Cymru**
Cynhaliwyd y ras hon am y tro cyntaf yn ystod y mis diwethaf, sef Ultra 100 milltir – er ei bod wedi ei mesur ar declynnau'r rhedwyr fel 104 o filltiroedd. Roedd yn cychwyn ar bier Bangor ac yn dilyn yr arfordir gogleddol i Aberdaron cyn gorffen ar draeth Aberdesach. Roedd cyfle i redeg fel unigolion neu fel parau, ac unwaith yn rhagor, wedi ei threfnu gan Huw Williams. Roedd Llion Iwan yn un o'r pâr cyntaf i orffen, a Hugh a Fiona Morgan yn diweddu'n drydydd yn y parau cymysg. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

**Ras 5k Bethel**
Cynhaliwyd y ras fel rhan o ddathliadau haf y pentref a daeth 87 o redwyr o bob oedran ac o wahanol ardaloedd i gystadlu. Bu rhai llwyddiannau lleol. Phil Lynes, Llanrug ddaeth yn drydydd yn yr adran dros 35 oed. Roedd Riley O'Donnel, Bethel, yn ail yn yr adran iau, ond y rhedwyr 'profiadol' o Fethel aeth a'r prif wobrau yn adran y gwahanol oedrannau - Arwel Lewis yn gyntaf dros 65 oed a Gwilym Williams yn gyntaf dros 70 oed. Llongyfarchiadau i Arwel Lewis ar gael ei ddewis unwaith yn rhagor i gynrychioli Tîm Meistri Cymru ym Marathon Caer ar y 6ed o Hydref eleni.

**Rasys lleol**
Yn ychwanegol i Ras Bethel, cynhaliwyd Ras Pentir hefyd ar noson hynod o wlyb, a rhai o'r rhedwyr yn ei disgrifio fel ras debycach i draws-gwlad ganol gaeaf na ras noswaith o haf! Mae gan Lanberis ras yr Wyddfa, ac mae rasys ffordd Llanrug a Bethel wedi hen sefydlu bellach. Roedd rasys yn Neiniolen a'r Waunfawr hefyd. Beth am ail-gyfodi'r rheini er mwyn dathlu ras ym mhob un o bentrefi mwyaf y fro?

**Yr Wyddfa – 24 awr**
Fel roedd newyddion y mis yn cael eu hanfon i'r golygyddion roedd dau dîm lleol yn cystadlu yn sialens 24 awr yr Wyddfa. Gan gychwyn am ddeg fore Sadwrn, y sialens oedd rhedeg i gopa'r Wyddfa ac yn ôl gymaint o weithiau a phosib cyn deg o'r gloch fore Sul – y cyfan ar ffurf ras gyfnewid.

**Ras yr Wyddfa**
Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd y ras wedi bod, ond bron na ellir darogan na fydd y record am y cwrs wedi ei thorri.

**Rasys i ddod**
Mae dwy ras lleol hynod boblogaidd yn cael eu cynnal yn ystod y ddeufis nesaf, a'r ddwy yng Nghaernarfon. Ar y 18fed o Awst bydd 10k Caernarfon, ac yna, ar yr 8fed o Fedi bydd Hanner Marathon Caernarfon – y ddwy ras yn cael eu rhedeg ar y Foryd.

## Gemau Olympaidd Paris 2024

Am bythefnos bydd llygaid y byd ar Ffrainc a Paris, wrth iddynt groesawu'r Gemau Olympaidd. Yn wahanol i'r arfer dim ond 3 mlynedd sydd wedi bod ers y Gemau Olympaidd diwethaf draw yn Tokyo, a hynny oherwydd i'r gemau gael eu gohirio am flwyddyn oherwydd Covid.

Hon fydd rhif 33 o'r Gemau Olympaidd yr haf i'w chynnal, a'r 3ydd tro i Baris ei chynnal wedi iddynt gynnal y gemau yn 1900 a chan mlynedd yn ôl yn 1924. Bydd athletwyr o 206 o wledydd yn cymryd rhan yn y gemau o 26ain o Orffennaf, gyda'r gemau'n dod i ben ar y 11eg o Awst. Nid ym Mharis yn unig fydd y campau'n cael eu cynnal. Gydag ambell i gamp wedi ei lleoli mewn lleoliadau eraill yn Bordeaux, Lille, Lyon, Marseille, Nantes, St Etienne, Nice ac mor bell â Tahiti yn y Môr Tawel.

Bydd 32 camp ac 329 medal aur i'w ennill dros y bythefnos o gystadlu. Gyda ThîmGB yn anfon carfan o 327 athletwyr a 25 ohonynt o Gymru. Hyd yma mae Cymru wedi ennill 79 medal yn y Gemau Olympaidd - 31 Aur, 25 Arian ac 23 Efydd. O'r cyntaf gan Paulo Ramilovic yn 1908 yn Llundain i Hannah Mills yn Tokyo yn 2021.

Felly pwy yw'r Cymry sydd yn y Gemau Olympaidd eleni ?

Ar ddwy olwyn mae cynrychiolaeth fwyaf o Gymru ym Mharis. Gyda 7 yn rhan o'r tîm seiclo. Bydd Josh Tarling a Stephen Williams yn mynd yn y ras ffordd. Enillodd Stephen Williams y *Tour Down Under* yn Awstralia yn gynharach eleni. Tra bydd Tarling yn y ras yn erbyn y cloc hefyd.

Bydd Ella Maclean–Howell yn y ras beicio traws gwlad. Ella yw'r cyntaf o Gymru yn y ras beicio traws gwlad. Tra ar y trac bydd cyfle da am fedal i Gymru. Bydd Elinor Barker yn edrych i ychwanegu at ei chasgliad o 2 fedal Olympaidd wedi iddi ennill Aur yn Rio ac arian yn Tokyo wrth iddi fynd yn y Team Pursuit i Ferched. Mae dwy Gymraes arall yn ymuno a Barker yn y tim o 5, Anna Morris a Jessica Roberts yn eu gemau cyntaf. Tra bydd Emma Finucane yn rhan o dair yn y Tîm Gwibio i Ferched.

Yn y dŵr bydd 5 yn cynrychioli Cymru. Bydd Matt Richards yn cystadlu dros 5 camp y 100m a 200m dull rhydd unigol ac yn y tîm o 4 dros yr un pellter ac yn y tîm o 4 yn y medli 100m. Mae Kieran Bird yn cystadlu yn y 400m dull rhydd tra bydd Daniel Jervis yn y 1500m. Yr unig ferch yn y tîm nofio fydd Medi Harris o Borthmadog. Bydd Medi yn rhan o dîm yn 200m dull rhydd a hefyd yn y 100m dull cefn unigol. Tra yn y dŵr agored Hector Parode fydd yn y ras 10km ac yntau wedi ennill efydd ym Mhencampwriaeth y Byd yn gynharach eleni.

Yn aros ar y dŵr yn y rhwyfo, gobeithio ychwanegu at eu 1 medal Olympaidd fydd y ddau Gymro wedi iddynt ennill medal yn Tokyo. Tom Barras yn cipio arian yn y *sgulls* i bedwar ac yn cystadlu yn yr un gamp eleni. Cipio'r efydd mewn tîm o 8 wnaeth Oliver Wynne–Griffith yn Tokyo, ond yn y parau fydd Wynne-Griffith tro hyn.

Does dim Hannah Mills yn yr hwylio erbyn hyn ond bydd y Cymro Michael Beckett yn yr ICLA 7 i ddynion.

Yn yr hoci mae 4 yn rhan o dimau Prydain sef Jacob Draper, Gareth Furlong ac Rupert Shipperley yn nhîm y dynion. Blwyddyn wedi iddynt chwarae yng Nghwpan y Byd dros Gymru. Mi fydd Sarah Jones yn nhîm y merched eto eleni wedi iddi fod yn rhan o'r tîm enillodd efydd yn Tokyo 2021.

Yn rhan o dîm bydd Jasmine Joyce hefyd wedi iddi gael ei chynnwys yn Nhîm 7 bob ochr am y 3 gemau yn olynol.

Y ddwy ieuengaf o Gymru yn y gemau fydd Ruby Evans ac Anna Hursey. Bydd Ruby Evans sydd yn 17 oed yn y tîm gymnasteg. Y tro cyntaf ers 1996 i Gymru gael cynrychiolaeth yn y gymnasteg. Yn y tenis bwrdd unigol bydd Anna Hursey. Er ei bod ond yn ddeunaw oed mae Hursey wedi cynrychioli Cymru mewn 2 gemau Gymanwlad.

Rosie Eccles fydd yn y sgwar bocsio yn y categori 66 cilo. Fe wnaeth y bocs wraig o Gasnewydd ennill medal aur dros Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham.

Yn y Stade de France fydd yr athletau. Bydd Jeremiah Azu yn y ras y 100m. Azu sydd yn dal y record Cymreig a hefyd y Cymro cyntaf i redeg o dan 10 eiliad yn gynharach eleni. Mi fydd yn y ras unigol ac yn rhan o'r tîm o 4.

Yr olaf o'r Cymru yw Jade Jones yn y Takewondo. Hon yw'r 4ydd gemau i'r ferch o Flint. Siom oedd hi yn Tokyo 3 mlynedd yn ôl wedi iddi golli yn y rownd agoriadol. Ond fydd Jones yn gobeithio ychwanegu i'w dwy fedal aur o Lundain a Rio ac yn llygadu record Hannah Mills fel y Gymraes fwyaf llewyrchus yn y Gemau.

Mi fydd hi'n bythefnos gwych o bob math o chwaraeon i'w gwylio a gobeithio'n wir y cawn weld llwyddiant Cymreig yn y Gemau ym Mharis.

**Elgan Rhys Jones**

ISSN 2516-7235